

y **D** *inesydd*

CYLCHGRAWN NEWYDDION
CYMRAEG CAERDYDD
NADOLIG A'R CALAN 1992-93
RHIF 189 65c I NI - AM DDIM I CHI



CYFARCHION
DEDWYDDAF
YR WYL I BOB
UN O'N
DARLLENWYR

(Y FARI)

WEL DYMA NI'N DWAD



SEINIAU NADOLIG

MEIC STEVENS
DIM OND CYSGODION

PAUL WILLIAMS
LLWYBRAU ATGOF

SOBIN A'R SMAELIAID
...A RHAW

JOHN AC ALUN
CHWARELWR

LLEISIAU'R GWEUNYDD
YMLAEN A'R GÂN

STUART BURROWS
EMYN O FAWL (CD)

BOB DELYN A'R EBYLLION
GEDON

HANNER PEI

ELEN AP ROBERT
SOPRANO

DAI LLANILAR
CANEUON GORAU

CÔR Y BRYTHONIAID
GOREUON

OLIVER SAMMONS
TREBL

MABSANT • EIRA PALFREY
MABSANTA

CANTORION CLWYD
CAROLAU (CD)

Y BRODYR
FEL Y MAE

TYNAL TYWYLL (CD)

ar gwl o'ch sup llof neu o

SAIN LLANDWROG, CAERNARFON, GWYNEID 0286 83111

CYNNIG Y TYMOR

yn Oriel - ble arall?

*

Cynnig arbennig eleni ar gyfer y
Nadolig ar gael 'nawr.

Y GEIRIADUR CYFOES / THE MODERN WELSH DICTIONARY

100,000 o eiriau a ddihradau ar adolygiad cyflawn
Pwys gwerthu arferol £9.99

Pwys anghieradwy o **£6.99**
i supwynt personol yn Oriel.

ARBEDWCH £3

Galwch heibio am eich copi heddiw.

*

AGORIAD HWYR AR GYFER Y NADOLIG

Dydd Iau Tachwedd 12
hyd at 8 yr hwyr

Dydd Iau Rhagfyr 3
hyd at 9 yr hwyr

Dydd Iau Rhagfyr 10
hyd at 9 yr hwyr

Dydd Iau Rhagfyr 17
hyd at 9 yr hwyr



Oriel, Siop Lyfrau Cyngor y Celfyddydau
Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd CF1 4AA

Welsh National OPERA Cenedlaethol Cymru

TYMHORAU'R GWANWYN A'R HAF 1993
Theatr Newydd, Caerdydd (0222) 394844

LA BOHEME

Puccini *Centr yn Eidalæg*
Caerdydd 1, 6, 12, 17 Chwef, 28 Mai, 1 a 4 Mehefin 7.15pm

TRISTAN und ISOLDE

Wagner *Centr yn Almaeneg* Cynhyrchiad Newydd
Caerdydd 13 a 20 Chwef a 6 Mawrth 7.15pm

Un Ballo in Maschera

Verdi *Centr yn Eidalæg*
Caerdydd 22, 27 Chwef a 4 Mawrth 7.15pm

La Favorita

Donizetti *Centr yn Eidalæg* Cynhyrchiad Newydd
Caerdydd 5 Mawrth, 26 Mai a 3 Mehefin 7.15pm

EUGENE ONEGIN

Tchaikovsky *Centr yn Saesneg* Cynhyrchiad Newydd
Caerdydd 27, 29 Mai a 5 Mehefin 7.15pm

"Welsh National Opera brings opera
to parts of Wales other companies
cannot reach" **THE INDEPENDENT**

BP OPERA
CIRCUIT

Così fan tutte
or the School for Lovers



gan Mozart • Cynhyrchiad Newydd • *Centr yn Saesneg*
Gyda *Chyfeiliant Cerddorfa*

Treorci Theatr Parc & Dare Sad 2 Ion 0443 773112
Aberdâr Y Coliseum Maw 5 Ion 0685 881188
Caerdydd Theatr y Sherman Llun 11 Ion 0222 230451

AR DAITH YN Y GWANWYN 1992

Macbeth

gan Verdi • CYNHYRCHIAD NEWYDD
Centr yn Saesneg Gyda *chyfeiliant grŵp siambr*

Caerdydd Theatr y Sherman 26/27 Maw 0222 230451
Pontypridd Municipal Hall 30 Maw 0443 485934
Y Fenni Borough Theatre 1 Ebrill 0873 856923
Coed Duon Miners Institute* 5/6 Ebrill 0495 227206
Aberhonddu Y Guildhall 7/8 Mai 0874 622884
Ystradgynlais Miners 14 Mai 0639 843163
Welfare Institute

*Am fwy o fanylion am ionhyw un o'r perfformadau hyn, cysylltwch
â'r Adran Farchnata, Opera Cenedlaethol Cymru, John Street,
Caerdydd CF1 4SP. Ffôn 0222 464666*

**YN CHWILIO AM ANRHEG NADOLIG
ANARFEROL? TOCYNAU I'R OPERA
YW'R UNION BETH!**

GYFEILLION DINIWAD



Y Dinesydd, Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2JL

Ffôn 0222 578772

Fax 0222 567639

Gwerthiant Hysbysebion 0222 598243

Golygydd: Shân Emlyn Cychodolwyr: Sorenxit Bwano: Alaf Argraffu: Treforest Printing Cyhoeddi: A chymorth Cyngor y Callyddolwau © Y Dinesydd 1992
Llun y claw drwy garedigrwydd Cyngor Dinas Caerdydd/Ian Evans, Gen

CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

DWYSAU YMGYRCHOEDD DINESIG CYMDEITHAS YR IAITH

MEWN PROTEST yn erbyn siop Dixons yng Nghaerdydd arestwyd 7 o aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Cynhaliwyd y brotest er mwyn ymgychu yn erbyn agwedd wrth-Gymraeg y siop, nid yn unig yng Nghaerdydd ond hefyd ledled Cymru.

Casglwyd deiseb o 700 o enwau gan CYIG i'w gyflwyno i reolwr siop Dixons yn galw ar y cwmni i gadw'u haddewid i godi arwyddion dwyieithog wrth ail-wampio'r siop. I'r perwyl hwnnw hefyd bu dau o aelodau'r Gymdeithas yn ymrydio y tu allan i'r siop.

Wrth i'r ymgyrch ddwysau ddydd Sadwrn 6 Rhagfyr, ymgasglodd 30 o bobol y tu allan i Dixons i brotestio.

Anwybyddwyd y Gymdeithas pan geiswyd cyflwyno'r ddeiseb i Lyn Thomas, rheolwr y siop, a ddywedodd "The Welsh language is no good to anyone who wants it anyway".

Yn ôl Cymdeithas yr Iaith, roedd staff Dixons yn casglu deiseb yn mynnu nad oedd angen arwyddion dwyieithog yn y siop, ac yn amharu ar y brotest heddychlon ar y stryd y tu allan.

Pan aeth y protestwyr i mewn i'r siop i bicedu, galwyd yr heddlu ac arestwyd Gill Stephen, Steffan Webb, Lyn Mererid, Tim Saunders, Dafydd Wiliam, Steffan Cravos, a'r cynghorydd Llafur Ray Davies. Fe'u cadwyd yn y ddaifa am deirawr cyn eu cyflwyno â chyhuddiadau o darfu ar yr heddwch a rhwystru'r ffordd fawr.

Yn ôl y Gymdeithas, bydd ymgyrch yn parhau yn erbyn Dixons a siopau eraill yn yr un grŵp, fel Currys—a hwyrach yn ymestyn i baentio sloganau.



roedd ymateb nifer ohonynt yn elyniaethus, ac anogodd i fwy o bobol wneud protest drwy beidio â dangos tocynd parcio ac i roi'r arian i elusen.

Yn ôl un o gynghorwyr De Morgannwg, Peter Jarvis, mi fydd hi'n "fater o egwyddor i beidio â defnyddio'r Gymraeg" wrth adnewyddu arwyddion parcio a ddfrodwyd yn ddiweddar gan Gymdeithas yr Iaith. Cadarnhaodd y newyddion ysgytwol hyn mewn llythyr ar bapur y Cyngor at Gymdeithas yr Iaith.

Gan gychwyn ar 21 Tachwedd, paentiwyd nifer o arwyddion y Cyngor Sir fel rhan o ymgyrch y Gymdeithas i gael arwyddion dwyieithog. Fel rhan o'r ymgyrch hefyd cynhaliwyd protest y tu allan i'r Swyddfa Gymreig pan wrthododd cefnogwyr y Gymdeithas â dangos tocynnau parcio. Yn eu lle dangoswyd taflenni yn esbonio'r brotest, a dweud bod yr arian wedi mynd at Blant Mewn Angen. Ers hynny fe'u gwyswyd i'r llys am beidio â thalu dirwy barcio bellach.

Picedwyd aelodau'r Cyngor yn eu cyfarfod ar 3 Rhagfyr, pan siaradwyd am y mater â nifer o gynghorwyr. Yn ôl Gill Stephen,

YN GYMRAEG... YNG NGHAEERDYDD A'R FRO

CYMRAEG CAERDYDD YN DANGOS EI BLU

FEDRWCH CHI enwi holl ysgolion Cymraeg Caerdydd a'r Fro, yr holl gylchoedd meithrin, y lle i fynd i chwarae peldroed yn Gymraeg, neu i nofio'n Gymraeg?

Dyna'r math o gwestiynau fydd *Yn Gymraeg... Yng Nghaerdydd a'r Fro* yn eu hateb mewn gwyl arbennig yn Neuadd Dewi Sant ar 21 Ionawr.

Cynlluniwyd y diwrnod i fod yn showcase i Gymreictod Caerdydd yn bennaf ar gyfer dysgwyr y ddinas, ond mid fydd yn ddiwrnod hefyd y bydd Cymry cynhenid hefyd yn gallu manteisio ohono.

Trefnir y diwrnod gan Gyngor y Dysgwyr, i ateb yr haerriad nad oes llawer o ddiben

i neb ddysgu Cymraeg os nad oes modd defnyddio'r iaith yn eu bywyd bob dydd.

Meddai Alun Treharne, un o drefnwyr yr achlysur, "Byddwn yn cyflwyno map o fywyd Cymraeg Caerdydd a'r Fro yn ei holl agweddau, a thynnu sylw i holl bosibiliadau'r iaith yma yn y '90au".

Gwahoddwyd 70 o fudladau, cymdeithasau, busnesau, ac asiantaethau cyfrwng-Cymraeg i gymryd rhan yn yr wyl, ac eisoes sicrhawyd nawdd ariannol ar gyfer y diwrnod.

Wedi ei drefnu hefyd mae amserlen adloniant i oedolion a phlant gydol y dydd, gyda sesiynau i ddysgwyr, eitemau cerddorol, ysgol Sul, sgrysiâu,

dawnsio gwerin, a Martyn Geraint yn canu i'r plant lleia.

Bwriedir hefyd paratoi cyfeirlyfr cryno i weithgarwch Cymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro i'w gyhoeddi fel atodiad i'r Dinesydd.

Ychwanegodd Alun Treharne "Yn sicr, dyma'r fenter fwyaf uchelgeisiol i CYD De Morgannwg fynd ati i'w threfnu. Mae angen digwyddiad o'r fath i ddangos ein cefnogaeth i'r lluo o oedolion a phobol ifanc sydd wrthi'n meistrol'i'r Gymraeg yn y de-ddwyrain y dyddiau hyn. Os llwyddwn i dynnu dysgwyr a Chymry Cymraeg Caerdydd at ei gilydd, yna bydd y cyfan wedi bod yn werth chweil".

Copi mis Chwefror i gyrraedd erbyn 15 Ionawr 1993

I OFYN AM GENNAD I GANU

ROEDD NEB O'RHENYDDYDD YN EANG EU TESTUNAU, HEB FOD YN DRWM, A RYDYM YN EDRYCH MIAEN AT Y FLWYDDYN NEWYDD A HYDER YNG NGHYFARFOD CYNTA'R FLWYDDYN GYDAG YMWELIAD AR 6 IONAWR A CHANGEN RADUR.

COLOFN SHÂN

YN SYDYN



SHÂN EMLYN

NEITHIWR BŪM yn gwylio *Dechrau Canu Dechrau Canmol* o Ysbyty'r Waun. Yr hyn a'm trawodd oedd nad oeddwn yn adnabod neb yn y gynulleidfa.

A minnau'n meddwl am lunio'r golofn hon, roedd hi'n eitha sgytwol i sylweddoli bod yna Gymry Cymraeg allan yn y fan yna rywle nad yw'r Dinesydd hwyrach yn cyffwrdd dim â'u bywydau nhw.

Gall y Dinesydd ond adlewyrchu yr ymateb a gaiff gan y darllenwyr; yn nwylo'r darllenwyr mae ei ddyfodol, ei gynnwys a'i ogwydd. Mae dirfawr angen gwaed newydd ifanc. Felly da chi, beth am ymateb ac anfon ataf gyda chwyn, syniadau a beirniadaeth?

Oes, mae prinder gweithwyr yn rhengoedd y Dinesydd, ac wrth gwrs mae'r sefyllfa ariannol yn hunllef barhaus. Meddyliaf yn aml a fyddai Cymry Caerdydd yn colli'r Dinesydd pa ai i'w aped? Ym 1993 bydd y papur yn 20 oed, a nifer o'r gweithwyr yr un rhai o hyd. Os nad yw'r Dinesydd yn adlewyrchu eich bywyd Cymraeg a'ch bywyd cymdeithasol chi, mae arnai ofn mai arnoch

DECHRAU CANU DECHRAU MEDDWL

chi mae'r bai.

Un o'r cymdeithasau Cymraeg mwya brwd, gweithgar a hael yng Nghaerdydd yw Cymdeithas y Dysgwyr. Ar 21 Ionawr maent yn cynnal Diwrnod Agored i'r Iaith ar Lefel 2 Neuadd Dewi Sant o 10 y bore tan 5 y nos.

Mae trefnydd yr ŵyl, Alun Treharne, yn awyddus i sicrhau fod yr Ŵyl yn fywiog ac yn adlewyrchiad teilwng o bosibiliadau'r Gymraeg yn y brif-ddinas a'r Fro yn y 90au.

Bydd cyfres o fyrdau a phaneli yn cael eu darparu i ddarlunio a chyflwyno gwybodaeth am fywyd trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd, ac mae'r Dinesydd yn awyddus i fod yn rhan o'r fenter.

Gobeithio y byddwch chi ddarllenwyr, sy'n cynrychioli sawlagwedd o'r bywyd hwnnw yn cefnogi'r diwrnod, ac y bydd y Gymraeg yn diasbedain yn Neuadd Dewi Sant.

Wrth ddringo i Lefel 2, cipiwch olwg ar dabled ar y wal wrth y grisiau symudol yn dynodi i'r Dinesydd ennill cystadleuaeth Bwrllwm Bro yn yr Eisteddfod Genedlaethol flynyddoedd yn ôl. Mae hyn yn dyst i frwdfrydedd cnewyllyn bach o ffyddloniaid dros y blynyddoedd.

Wel, dyma ddigon o bregethu! Mae Gŵyl y Geni ar y trothwy a'r prysurdeb arferol ar

ein gwarthaf. Addurniadau'r Nadolig yn britho'r ddinas, a phentre Llandaf yn bictwr â choed Nadolig a'u goleuadau uwchben pob siop.

Mae rhan ohonof yn dal i fyw "yn nheymas diniweid-rwydd". Hynny'n ennyn brwdfrydedd a chyffro i forol am y cardiau, yr anrhegion, y mins peis a'r paratodau i gyd.

Er mai yn y Felinheli y bydda i'n rhannu llawenydd Ifan, Aled a'u rhieni, fe fydd 'na goeden fach â'i goleuadau'n wincian yn ffenest yr Hen Dŷ. Nadolig Llawn iawn i holl ddarllenwyr y Dinesydd.

AR WAWRIO

AR YR AIL nos Lun o bob mis, yn festrï capel Minny Street am 7.30pm, mae 'na ddyrmaid dygn o aelodau Merched y Wawryn cyfarfod, a chael hwyl.

Mae'r cyfarfodydd yn eang eu testunau, heb fod yn drwm, a rydym yn edrych mlaen at y flwyddyn newydd â hyder yng nghyfarfod cynta'r flwyddyn gydag ymweliad ar 6 Ionawr a changen Radur.

DIOLCH LLOYD

Mewn cyfarfod o'r Clwb Cadw'n Heini yng Nglantaf ar nos Lun 9 Tachwedd, anrhegwyd Lloyd Evans, sylfeinydd y clwb ym 1975, â chyfrol Waldo gan Wasg Gregynog fel cydnabyddiaeth o werthfawrogiad aelodau'r Clwb am ei weledigaeth a'i ddyfalbarhad dros 16 o flynyddoedd cyn rhoi'r gorau i gynnal y clwb flwyddyn yn ôl.

ADDYSG

PEN TOST PENCAE A GWÊN MELINGRUFFYDD

MAE CYNLLUNIAU i ehangu Ysgol Gymraeg Pencae yn Highfields Llandaf wedi codi nyth caewn ymlith cymdogion yr ysgol oherwydd adeiladu.

Er mwyn cynyddu nifer y disgyblion o 72 i 210 bydd angen adeiladu estyniad deulawr er mwyn darparu adnoddau i rieni adael a chasglu eu plant, heb greu tagfa ar y stryd ei hun.

Bydd yr estyniad yn cynnwys stafelloedd dosbarth newydd, cegin a thai bach.

• Daeth adroddiad HMI â gwên i staff a disgyblion Ysgol Melingruffydd pan ganmolwyd yr ysgol am nerth yr addysg yno.

O'r holl adroddiadau HMI ar ysgolion Cymraeg Caerdydd dros y blynyddoedd diweddar, hwn oedd y gorau o'r cyfan. Dywedodd Benny Harris, trefnydd iaith De Morgannwg "dyma un o'r goreuon imi weld yng fy ngyrfa yn y byd addysg".

Mae 252 o ddisgyblion yn yr ysgol, a 75% ohonynt o gartrefi di-Gymraeg.

COFIO

TREVOR CLEE

YN DDISYFYD bu farw Trevor Clee ddechrau mis Tachwedd, er i'w iechyd fod yn fregus dros nifer o flynyddoedd.

Bu ei farwolaeth yn ergyd galed i'w briod annwyl Jane, ar ôl cyd-dreulio hanner canrif gyda'i gilydd, ac i'w ferch Elaine a'i gŵr Bryn. Bu'r tri ohonynt

yn ofalus iawn ohono yn ei freuder.

Hanai Trevor a Jane Clee o Ystalyfera, gan ddod i Gaerdydd ym 1942. Bu'n gweithio fel peiriannydd gan weithio'r blynyddoedd olaf cyn iddo ymdeol i gwmni Rover.

Perthynai i deulu enwog

Clee fu'n flaenllaw dros ben ym myd cerddorol Cwm Tawe, yn enwedig yn y canu corawl. Roedd cerddoriaeth yn llifo drwy ei wythiennau.

Chwaraeai'r cello a'r tiwba fel aelod o fand enwog Ystalyfera fu am gyfnod hir yn sgubo'r gwobrwyon mewn cystadlaethau yng Nghymru a thu hwnt.

Cyfrannodd o'i ddawn i gannoedd o blant dros gyfnod maith - bydd llawer yn cofio troedio'r llwybr at y piano yn ei

gartref yn Blossie Road i gael gwersi ganddo, a mwynhau llwyddiant cyson mewn arholiadau.

Roedd y teulu'n fawr iawn eu parch yn yr ardal ac mewn cylch ehangach. Tystiolaeth o hyn oedd presenoldeb nifer o gyfeillion yn amlosgfa Thornhill brynhawn Mercher 11 Tachwedd, wrth dalu'r gymwynas olaf i'r diweddar Mr Trevor Clee. Coffa da amdano, a chydymdeimlad dwysaf â'r teulu yn eu galar a'u hiraeth.

OS NA CHAWN NI GENNAD

ENWOGION SY'N ENNILL £100 I UN O DDARLLENWYR Y DINESYDD Y NADOLIG HWN!

DINESYDD 2000

DYMA'R ENWOGION SY'N ENNILL £100 I UN O DDARLLENWYR Y DINESYDD Y NADOLIG HWN!

YR ATEBION CYWIR I GYSTADLEUAETH FAWR DINESYDD Y DOLIG WRTH GWRS YW ALED SAM (NA NID DAFYDD IWAN), CARYL PARRY JONES, DEWI PWS, MARGARET WILLIAMS, RUSSELL ISAAC (AC NID NEIL KINNOCK), A SIÂN THOMAS.

A'R PERSON LWCUS DDAETH EI ENW ALLAN GYNTAF O'R SACH YW

**JENNIFER GRIFFITHS
TREGANNA**

EI00 I'W WARIO Y NADOLIG HWN YN EICH PWRS YN FUAN FUAN IAWN!

AC YN ENNILL GWERTH £50 O WIN O BLITH TANYSGRIFWYR DINESYDD 2000 MAE

**FALMAI BRYANT
YR EGLWYS NEWYDD**

DEDWYDDWCH YR WYL AR EI FFORDD ATOCH CHI CYN GYNTED Â CHARLLUSG SIÓN CORN!



CEWCH GLYWED AR GANIAD



celtic **HENDERSON CROSTHWAITE**

BROCERIAID STOC A RHEOLWYR

BUDDSODDI ANNIBYNNOL

Yr enw newydd ym myd Broceriaid Stoc
yng Nghymru

“Yng ngheg y sach y mae cynilo”

Yn gyntaf, dewch i siarad â ni
Dafydd Hampson-Jones
neu Howard Bailey

Tŷ Penhill, Heol Penhill, Caerdydd, CF1 9UP
ffôn (0222) 394021/6 ffacs (0222) 228452

Mae Celtic Henderson Crosthwaite yn enw masnachol
Henderson Crosthwaite Cyf. Mae Henderson
Crosthwaite Cyf yn rhan o grŵp Guinness Mahon
Holdings ccc., yn aelod o Awdurdod Gwarannau a
Dyfodolion ac hefyd yn aelod o Gyfnewidfa Stoc
Llundain.

Siurnai Arbennig

QE2 A CONCORDE

taith union gyntaf Concorde o

TORONTO I GAERDYDD

5 MAI 93 – 10 NOSON

Yn cynnwys mordaith 4 diwrnod ar y QE2,
gan ymweld ag Efrog Newydd, Lake George,
Rheadrau Niagara a Toronto
hefyd: bws i Southampton, aros dros nos yn
yr Hilton National gyda Chinio Gala

Prisau o £1995 p.p

.....

Siurnai Arbennig

yng nghwmni

SÊR POBOL Y CWM

ar

**FORDAITH Y GWANWYN YM MŌR Y
CANOLDIR - 8 DIWRNOD 27 MAWRTH 93**

Gan ymweld â Malaga, Cagliari,
Palermo, Messina, Corfu a Fenis

“Miri yr yr Haul gyda'r Sêr”

ar gael yn unig o Capital Travel
11 Heol Penllyn
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
(0222) 628661

(Luniau (l'w cyf

yn cyflwyno

EIRA CYNTA'R GAEAF

gyda

Daniel J Travanti

a

Meredith Edwards, Dafydd Hywel, Richard Lynch,
Siân Maclean, Lynette Davis, Patrick Loomer

Dydd Nadolig ar S4C

Tŷ Cefn, Rectory Road, Treganna, Caerdydd CF5 1QL
Ffôn 0222 640644 Ffacs 0222 644914

SIŌN CORN CYMRAEG

**Adran Deganau Dan Evans y Barri
Bob pñawn Sadwrn yn Rhagfyr
1.30pm - 5.00pm**

dan evans
de

Y siop i bob aelod o'r teulu
Heol Holton
Y Barri
0446 734242

Huw Roberts BSc, ACMA
Cyfrifydd
**Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda**

Aelod o
FIMBRA

*Cyngor ariannol
annibynnol ar gyfer
treth, pensiynau ac
yswariant personol*

Y Rhodfa, 5 Pine Court, Forest Hills,
Talbot Green, Morgannwg Ganol CF7 8LA
Ffôn Llantrisant (0443) 224182

BETH FYDD EIN DYMU NIAD



YR HEN FFORDD GYMREIG O FYW... ADEG Y NADOLIG

DYMA NHW'N DWAD



Mae'n bur debyg fod holl ddarlennwyr y Dinesydd yn hen gyfarwydd â defod y Fari Lwyd - neu o leia wedi clywed sôn amdani. Os na, prin iawn y gallaf egluro'r cyfan fan hyn, er hynny dyma rywfaint o'r stori.

Pen ceffyl wedi ei orchuddio â chynfas a dolennau o rubanau, a gwydr lliw fel llygaid yw'r Fari. Peth digon tawel sy'n gorwedd yn ddiymhongar yn y llofft tan ei chyfnod o rodio'r nos ar adeg gwyliau'r Nadolig.

Daw criw o ryw bump ati fel gosgordd i'w chanlyn o dŷ i dŷ yn ôl ei mympwy hi. Canu wrth ddrws y tŷ wna'r Fari, gan fynnu mynediad am gwrw a lluniaeth.

Gan mor afreolus yw ei hymddygiad, mae perchennog y tŷ yn ceisio'i chadw allan gan ganu penillion i ateb ei cheisiadau. Ond ar ôl iddo gael ohoni addewid i fihafio, agorir y drws gan fod y Fari'n dod â lwc dda hynafol i'r aelwyd.

Prin iawn yw ymddangosiadau'r Fari yng Nghymru erbyn hyn, ond mae Cwmni Dawns Caerdydd yn dal i arddel y ddefod. Eleni eto, mae'r Fari'n dod o'r llofft i roi braw i'r plant

a chusanu'r gwagedd, a chanu penillion maswedus ar ymdrechion y beirdd i'w chadw allan. Dechreuodd ar ei thaith yng Ngwyl Coeden Nadolig Sain Ffagan, a dim ond hi a wŷr lle'r aiff hi wedyn.

Un peth sy'n sicr mi fydd hi yn yr Hen Dafarn yn Llangynwyd ar Ddydd Calan er mwyn cynnal y traddodiad yno. Mae Mari Caerdydd wedi bod yn mynd i Langynwyd ers rhyw bedair blynedd bellach i ymaflyd mewn cystadleuaeth â Cynnwyd Williams, yr ola o griw y Fari sydd yn y llun gyferbyn.

Os oes rhywun arall am iddi alw heibio, dewch i gysylltiad â'r ostler, Rhodri Jones, ac mae'n siwr y gwel ei ffordd yn glir i ddod. Y rhif i'w alw yw 0222 704965.

*Daw'r Fari yn heini
I ganol cwmpeini,
A lwc i bob teulu
Mae'n todlu.*

*Mae'n gaseg hawdd ei chofio
A'i chynfas gwyn yn chwifio,
Trwy'r tywydd mawr i'ch tŷ y daw
Cewch frawo'i gweld hi'n prancio.*

CÂN Y GOEDEN DOLIG - O SAIN FFAGAN

ROY SAER

WRTH FWYNHAU cân y Nadolig hwn, cofwch am un o'r hen alawon Cymraeg hynny sydd wedi ei oddiwedd gan diwn Saesneg debyg, sef *Y Cyntaf Dydd*, neu *Y Betrisen*.

Mae gwahanol fersiynau o'r gân ar gael yn Saesneg (*The First Day of Christmas*) ac yn Ffrangeg.

Roedd *Y Cyntaf Dydd o'r Gwyliau* yn Gymraeg yn gân orchest, yn gân gynyddol y byddai rhannau ohoni'n cael ei chanu ar un anadl, ac yn gyflymach a chyflymach wrth i'r penillion ymestyn yn raddol.

Arferid cynnal cystadlaethau canu'r gân hon yn ystod gwyliau'r Nadolig - beth amdani eleni eto?!

- | | | | | |
|--|---|--|---|---|
| 3. Ar y trydydd dydd
Tair giâr Ffrainc | 5. Ar y pumed dydd
Pump deryn pert | 7. Ar y seithfed dydd
Saith cusan melys | 9. Ar y nawfed dydd
Naw ceffyl halio | 11. Ar yr unfed dydd ar ddeg o'r
Un ar ddeg o dwmplins |
| 4. Ar y pedwerydd dydd
Pedair gŵydd dew | 6. Ar y chwagedd dydd
Chwe ceffylgyn | 8. Ar yr wythfed dydd
Wyth ceffyl (yn)cicio | 10. Ar y degfed dydd
Deg swilt ar hugain | 12. Ar y deuddegfed dydd
Deuddeg pêr o sgidiau |



MENNA'N MANYLU

AMATURIAID PROFFESIYNOL A THWRICI

MENNA MEDI

TRABOFI wedi methu gŵyl o ddramâu gan amaturiaid adre'n Llanuwchllyn, ddi wedi cael digon o gyfle i ymweld â chynrychiadau proffesiynol yma yn y brifddinas. Ond er morbroffesiynol ydi amaturiaid ardaloedd gwledig, yn amal iawn mae'r bobol broffesiynol yn amaturiaid iawn hefyd!

Braf felly oedd mynychu gŵyl ddrama arall sydd ryw 10 milltiro Gaerdydd yn Llanilltud Faerdre, sef Gŵyl Tafod Elái, lle roedd 7 ysgol a 5 cwmni o oedolion yn cystadlu.

Er mai ar nos Fawrth yn unig yr ês i yno, fel arfer ceffais ddigonedd o hwyl ac roedd graen canmoladwy iawn, yn enwedig gan ddisgyblion ysgol Llwyn Celyn - pob un o'r 50 o gast yn rhoi o'u gorau.

Cwmni arall sydd bob amser yn llawn sgits am bobol leol ydi Clwb y Bont, a leni hanes Ulw Ela a'r tri arth gafwyd - dadi arth, mami arth a Gwaelod (g)arth! Biti na fyddai'r cast talentog, direidus yma'n cystadlu tu allan i'r Wyl.

Nôl yn y ddinas a daeth

Cwmni Theatr Gwynedd ar eu taith i'r Sherman efo cynhyrchiad o'r Gosb Ddiddial, cyfieithad graenus a bachog Gareth Miles o ffars Eidalaidd Lope de Vega o'r 16 ganrif. Roedd y gynulleidfa - er nad oedd y brif arena'n llawn - wedi eu siomi o'r ochr ore, ac roedd yna ddigrifwch yn ogystal â thristwch yn hanes y pendefig a'i fab oedd mewn caniad â'r un ferch. Roedd cymeriadau a sidelines doniol Batin y gwas (Trefor Selway) yn ysgafnhau'r llefau blodeuog yn arw, ac roedd

ysblander gwisgoedd y cymeriade'n nodweddu mawredd ac ariangarwch y Dug Ferrara.

Roedd slicrwydd y set i'w ganmol, er ar adegau roedd pethau bach yn amharu ar fwynhad y gwylwr, ee: pan wrthododd y drws ag agor i un actor, ac roedd criw tu ôl i'r llwyfan i'w gweld yn cau ffenestri'r set yn ystod yr actio.

Un peth bach arall oedd acenion yr actorion. Roedd iaith y marcwis a'r Dug wedi ei sgwennu ar gyfer deheuwr, ac weithiau llithrai acenion gog-

leddol Alun Elidir a Wyn Bowen Harries gan dynnu oddi ar eu pefformiad. Gyda llaw, dyma'r tro cynta i Wyn actio efo Theatr Gwynedd, ac ynte'n un o gyd-sylfaenwyr Hwyl a Fflag.

Pefformiad arall fu yma'n ddiweddar oedd Gwaed Oer gan Michael Povey, a Chwmni Whare Teg yn ei chyflwyno. Roedd y plot, y cefndir a'r cymeriadau'n ystrydebol a hen ffasiwn, a barn nifer o'r gwylwr oedd ei bod yn siomedig o feddwl am yr awdur a'r cwmni adnabyddus - roedd cymeriad Sue Roderick mor debyg i'w rôl mewn cynrychiade eraill; cymeriad Bryn Fôn yn rhy löaidd i feddwl am weithredu llosgach efo'i ferch; a Terry (Dafydd Emyr) yn gymeriad rhy tyff i fod yn gredadwy. Arycyfan roedd yn ddigon o adloniant, ond disgwyliais gynhyrchiad gwell gan Whare Teg.

Sôn am whare teg, mi derfynaf efo siomiant arall yn gymysg â gobaith. Mi ddefnyddies fy mhasbort Cymraeg a gefais gan y Cyfamodwyr am y tro cyntaf i fynd i Dwrci nôl yn yr Hydref. Dim problem i fynd allan o Gatwick; wynebaw amheus ond bodlon y ceidwaid yn Nhwrci; ond trafferth i ddod yn ôl drwy glwydi Gatwick gan un swyddog ifanc, cin oedd yn dweud nad oedd yn ddilys nac yn swyddogol. Finne'n deud imi fynd allan o'u maes awyr nhw efo fo, fynte'n gofyn am fy un Prydeinig. Finne'n deud nad oedd o gennai (ond mi oedd, rhag ofn!), fynte'n nôl uwch-swyddog. Hwnnw'n deud ei fod yn 'edrych yn neis', ond na fedrwn ei ddefnyddio. Finne'n deud ei fod yn mynd i gael ei iwsio am 5 mlynedd arall, fynte'n deud ei fod am hysbysu pob maes awyr fod rhai o'r fath o gwmpas y wlad. Finne'n deud "stwfio di'r Sais diawl...whare teg!"



PIGION NADOLIGAIDD SAERENNIG

DAFYDD SAER

digon o arian ar gyfer y pris mynediad, felly i ffwrdd â mi i'r gorllewin gwyllt i sgwrio tafarn a ffôs am hanesion difyr i'r Dinesydd.

Wedi troi oddi ar y briffordd i Abercuch, deuthum ar draws tafarn fechan a adwaenir yn lleol fel Y Ty Bach. Ar ôl camu dros y rhiniog, sylweddolais paham.

Oddi mewn i'r dafarn fechan hon nid oedd amgen na sinc a dwy wrinal, gorsedd, a didolydd papur. Nid oedd undyn yno, a phenderfynais mai ofer fyddai disgwyl yma am weinydd.

Felly allan â mi, ac yn y gwyll bu bron imi faglu mewn i ffôs gyfagos, lle roedd eisoes gorff yn gorffwys. Dihunais y person, a chael ei fod yn dra meddw.

Eben 'Toilet' oedd enw'r cyfaill, ac yntau ydoedd landlord y dafarn. Cynnais fy recordydd Uher, a holais Eben am arferion lleol yn ymwneud â'r Nadolig. Dyma'i ateb, wedi ei drawsysgrifo air-am-air:

"Arferas i mamgu wneud diod arbennig i ni'r plant tua'r Nadolig. Roedd yn rhaid casglu'r cynhwysion am saith mis, macsu'r ddiod am saith niwrnod, ac yfed saith peint ohono mewn saith munud" (Roedd rhaid gwneud rhywbeth pellach mewn saith eiliad, ond mae nam ar y tãp yma, ac mae lleferydd Eben yn aneglur).

"Wel, os cofiat yn iawn, Watneys Red Barrel oedd prif nodwedd y pwrs, a byddai mamgu yn ei led-ferwi am ddwy awr gyda gwerth saith mis o hen sanau a chwplw o ddail celyn".

Mae archifau'r plwyyn dangos bod y ddiod hon wedi bod yn gyfrifol am gadw niferoedd y boblogaeth yn isel iawn yn ystod bywyd mamgu Eben, Martha 'Toilet', gwraig dlawd arbennig, garedig a diddorol.

Fy mraint a'm anrhydedd i'w cael cofnodi'r arfer hwn. Caput apri defero, redens laudes Domino.

Yn fy ngholofn fis Tachwedd, chwi gofiwch imi sôn am y cyn-Chwilen Paul McCartney. Peidiwch â chyffrô, ni fyddan yn ei grybwyll y tro hwn.

A ninnau ar drothwy'r 1,992fed Nadolig ers geni'r Iesu (tybed sut oedd pobol yn arfer dathlu'r Nadolig cyn geni'r Iesu?), mae'n bryd i ni oll ddechrau meddwl am ffyrdd o or-fwyta a meddwl.

Un o'r ffynonellau sicraf o ysbrydoliaeth yn fy nhyb i'w edrych tua'r gorffennol, ac atgyfodi rhai o draddodiadau coll ein cenedl. Pa le gwell i wneud hynny na gwarchodfa creiriau a mins peis, diogel loches y llafar a'r llo - Sain Ffagan.

Yn anffodus doedd gen i ddim

AGORWCH Y DRYSE

HEBEN I'W BWRDD YN YR ASADO. O BEN DRAW'R BYD

O BEN DRAW'R BYD


DOLIG BRAF O HAF

GWILYM ROBERTS

Llynedd, am y tro cyntaf yn fy mywyd, treuliais fy nydd Nadolig mewn gwlad estron, ymhell o gwmi'n teulu a'm cyfeillion. Bu'n brofiad unigryw gan fy mod i ar y pryd hwnnw yn byw yn nhre'r Gaiman ym Mhatagonia.

Roedd hi'n ddiwrnod o haf yno, a'r tywydd Dydd Nadolig yn hyfryd – yr awyr yn las uwchben, a minnau'n gallu gwisgo crys-T a shorts! Deffroais yn gynnar y bore hwnnw gan fod yr haul eisoes yn disgleirio. Codais i wneud fy yoga boreol cyn mynd i loncian o gwmpas y dre. Roedd hi'n fore tawel a fawr neb o gwmpas.

Nôl â fi i gael cawod cyn picio i lawr y stryd i siop Emyr a Melba i brynu potelaid o ddwr ac i ddyuno Nadolig Llawen iddyn nhw! Wedyn daeth yn bryd i mi fynd i dŷ teulu'r MacDonalds i gael asado –



barbiciw y paith. Roedd hi'n unarddeg y bore arna i'n cyrraedd eu ty nhw, ac yn ddau o'r gloch y prynhawn yng Nghymru. Cês ffonio fy mrawd a'i deulu ym Mhentyrch o'u tŷ, a mawr oedd y gweiddi a'r

cyfarch ar y ffôn wrth glywed fy llais!

Roedd Elvey MacDonald a'i ferch Meleri wedi dod draw o Aberystwyth i dreulio'r Nadolig yn y Gaiman, ac felly rhwng pawb roedd tua phymtheg

ohonom i gyd yn yr asado.

Rhostiwyd oen cyfan yn yr ardd gefn, ac yna ymunodd pawb wrth y bwrdd yn y gegin i fwyta platiaid o salad amrywio i olchi'r cyfan i lawr. Doedd dim sôn am dwrci na stwffin na phwddin Dolig! Cawsom salad ffrwythau ffres a chacen gaws i offen y wledd. Fe sgwrsion ni a chanu am yn ail, a phawb yn mwynhau'r achlysur.

Ymlwybrais adre ganol y pnawn i gael siesta cyn codi tua chwech, a cherdded i ben y brynau isel ar ben y stryd i edmygu'r olygfa o'r Gaiman a'r Dyffryn o gwmpas yn yr haul oedd yn dal yn boeth yr amser hynny o'r dydd.

Dychwelais i'r tŷ i sgrifennu ychydig o lythyrau at bobol yng Nghymru cyn troi am y gwely.

Oedd, roedd fy Nydd Nadolig bron ar ben, a minnau wedi profi diwrnod gwahanol iawn i'r arfer. Trannoeth byddai pawb nôl wrth ei waith gan fod neb erioed wedi clywed sôn am Wyl San Steffan!

HEL MEDDYLIAU

YR ANHERFYNOL

HUW ETHALL

Tybed ai ar ddiwedd blwyddyn y dywedodd y Salmydd wrth sôn am Dduw yn Salm 139 "Yr wyt wedi cau amdanaf yn ôl ac ymlaen?" ("Amgylchynaist fi yn ôl ac ymlaen" yng nghyfieithiad yr Esgob William Morgan).

Rhyw amser felly yw mis Rhagfyr; amser edrych yn ôl ac edrych ymlaen. Ac mae'r Salmydd yn teimlo ei fod yn byw mewn cylch, a'r cylch hwnnw yw Duw. Os yw am fynd yn ôl, mae Duw yno; os yw am fynd ymlaen, mae Duw yno hefyd. Cylch yw bywyd meddai rhai. Mae dyn yn dod nôl i'r man y dechreuodd ohono yn aml.

Ond nid dyna sydd gan y Salmydd. Nid rhyw gyddigwyddiad felly. Dweud y mae mai Duw yw'r cylch.

Adroddir stori am fachgen seithmlwydd oed mewn gwers Ysgrythur, ac yn dweud wrth ei athrawes "Rown i'n methu cysgu neithiwr, miss. "Pam?" gofynnodd hithau. "Wel", meddai, "rown i'n meddwl".

"Meddwl am beth?" gofynnodd hithau. "Dychmygu roeddwn i mod i'n gweld llinell hir, hir, ahonno'n mynd ymlaen a mlaen a mlaen yn ddiddiwedd. A doeddwn i ddim yn ei deall hi". "Be wnaethoch chi 'te?" "Fe drois hi yn gylch," meddai'r crwt. "Roedd y llinell yn dal i fynd a mynd yn ddiddiwedd eto, ond roeddwn i'n ei deall hi wedyn, ac fe ês i gysgu".

Wedi ceisio meddwl am yr anherfynol oedd y bachgen bach, ac roedd gwneud cylch o'r llinell hir ddiddiwedd wedi

bod yn help iddo.

"Amgylchynaist fi yn ôl ac ymlaen" meddai'r Salmydd. "Yr wyt wedi cau amdanaf..." Gwelai Dduw yn ei orffennol, a gwyddai y byddai Duw yn ei ddyfodol eto.

Fel y gwyr rhai, mae capel arbennig y tu allan i Bort Talbot, a'i hynodrwydd yw ei fod yn gapel crwn. A oes un arall tebyg unman? Dywed traddodiad iddo gael ei adeiladu felly i rwystro'r Diafol i gael cornel i lechu ynddi. Mae gan y gair cornel rhyw gysylltiad anffodus yn perthyn iddo. Yn y gornel mae llwch yn cronni. Eu tafu i'r gornel y caiff llawer o bethau nad ydym eu hangen. Y gornel oedd lle'r plentyn drwg yn y dosbarth, neu'r plentyn na wyddai'r ateb i rhyw gwestiwn. Mae cylch yn gwneud i ffwrdd â phob cornel.

Mae'n siwr mai profiad o

fyw bywyd arbennig a roddodd yr ymwybyddiaeth yma o bresenoldeb parhaol Duw i'r Salmydd. Un ffordd i'w gael yw'r ymarfer cyson o addoli, siwr o fod. "Ymarfer dy hun i dduwioledeb" meddai Paul wrth Timotheus ifanc.

Edward Jones, Maes y Plwm geisiodd sôn am y Duw diderfyn hwn yn ei emyn gorchestol: *Mae'n llond y nefoedd, llond y byd,*

*Llond uffern hefyd yw;
Llond tragwyddoldeb maith ei hun,*

*Diderfyn ydyw Duw;
Mae'n llond y gwagle yn ddiogoll,
Mae oll yn oll, a'i allu'n un,
Anfeidrol anherfynol Fod
A'i hanfod ynddo'i Hun.*

• Dyma'r Hel Meddyliau diwethaf gan Huw Ethall. Diolch yn fawr iddo am fod mor driw a phrydlon i'r Dinesydd. Bydd yn chwth heb ei golofn.

MAE'R RHEW WRTH EIN SODLE, MAE'R

MAE'R RHEW WRTH EIN SODLE, MAE'R

Cymrwch ofal y Nadolig hwn

MAE'R YSBRYDION AR LED!

YN ÔL COEL Y CYMRY, DA
GNWD OERAIDD O ELLYLLO
FRITH O GWMPAS CAERDY
MANNAU I'W

MAEN NHY

Yn ôl pob tebyg credir bod digwyddiadau 'ysbrydoledig' (fel petai) yn fwy tebygol ar un o'r Tair Nos Ysbrydion, pan ganiateir i encidiau'r meirwon ddychwelyd i'r ddaear am ysbaid fer.

A'r adegau pwysig hynny yw gwyliau'r Holl Saint, y Nadolig, a'r

ADRODDIADAU GAN ARCH-OHEBWYR Y DINESYDD

Tua 25 mlynedd yn ôl ar noson gyffredin o aeaf, di-liw, dim lleuad na chwmwl, na rhow nac eira, roedd un o suryddogion cyngor tref Caerffili yn gyrru adre o Gaerffili drwy Nantgarw ac i Ffynnon Taf. Roedd hi tua 9.45pm, ac yntau wedi bod mewn cyfarfod o un o busyllgorau'r cyngor.

Gair am y gyrrwr i ddechrau: dyn yn ei 30au cynnar; fe'i ganed yng Nghaerdydd i deulu Albanaidd heb sawr ddim cysylltiad â thrawdodiadau Cymru. Meddyg o ran ei broffesiwn. A dyna hanes y noson honno.

Fe ŵyr llawer ohonoch am weithdy British Airways ar y ffordd rhwng Caerffili a Nantgarw - cadwch hyn mewn cof. Roedd y daith o Gaerffili yn dawel iawn, dim traffig gwerth sôn awlano, ond yn sydyn ar ran o ffordd hollol syth dyma yrrwr y car yn gweld tyrfa o bobol yn croesi'r heul ychydig o flaen y car. Roedd hi'r un mor frazgyrchus

ac
MAE
HON
YN
WIR

mynd drwyddyn nhw a sylweddoli nad oedd cyrff yno, dim ond rhyw linyrn o niwl. O'i holi fe gawd mai symud o'r chwith i'r dde oedd y finta, croesi o ochr Caerdydd dros y ffordd. Mae hyn yn bwysig, oherwydd i'r dde o'r ffordd sawr - rhyw led dau neu dri cae - mae Capel Groeswen, hen hen sefydliad ymneilltuol sy'n dathlu 250 mlwyddiant eleni. Bu'n gapel poblogaidd dros ben gyda rhyw 800 o aelodau ar un adeg. Dos mamau a'u plant o 30 o blwyfi i'w bedyddio yn y Groeswen. Oherwydd i gymaint o selogion ac

enwogion gael eu claddu yn y fynwent sawr, cafodd y lle ei alw'n Westminster Cymru. Ar hen fapiau OS mae nifer o lwybrau a ffordd yn arwain at y lle. I unrhyw Gymer sy'n gwybod y mymryn lleiaf am hen goelion y Cymry, roedd disgrifiad gyrrwr y car o'r hyn welodd yn un perffaith o doili - rhith anglodd. Wyddai'r gyrrwr ddim am fodolaeth toli nac am unrhyw hen goel - fyddde fe ddim wedi credu tase fe wedi darllen am y peth. Ac eto roedd yn disgrifio'r peth hir du



SODLE, MAE'R RHEW WRTH EIN S



**YN ÔL COEL Y CYMRY, DAW'R NADOLIG Â'I
GNWD OERAIDD O ELLYLLON, AC MAEN NHW'N
FRITH O GWMPAS CAERDYDD. DYMA RAI O'R
MANNAU I'W HOSGOI**

i llyny yno, ac felly mae'n amhosib mai gwent yn hofran ar ôl unrhyw ymwelydd sydd yno."

Mae gan Castell Coch ei wala o ysbrydion hefyd, gan gynnwys hanes trysor Ifor Bach, Arglwydd Senghenydd, sy'n cael ei warchod gan

MAEN NHW O GWMPAS EICL

Yn ôl pob tebyg credir bod digwyddiadau 'ysbrydoledig' (fel petai) yn fwy tebygol ar un o'r Tair Nos Ysbrydion, pan ganiateir i eneidiau'r meirwon ddychwelyd i'r ddaear am vsbaid fer.

A'r adegau pwysig hynny yw gwyliau'r Holl Sant, y Nadolig, a'r

Calan - er bod coel ar led na fyddai ysbrydion allan yn cael caniatâd i ddychwelyd ar Noswyl Nadolig.

Os fedrdech chi enyn digon o hyder, pam na wneuch chi cael pip drwy ddrws y clo yn Eglwys Llanilltud Fawr adeg y Nadolig 'ma? Fe allech chi weld eneidiau'r bobol fydd yn marw o fewn y flwyddyn i ddod.

O Forgannwg hefyd y daw'r goel mai ysbrydion pobol wedi boddi yw'r eswyn gwyn ar frig tonnau'r môr, yn dychwelyd ar eu meirch gwyn adeg y Nadolig, y Pasg a Noswyl yr Holl Sant.

Mae Castell

Caerffili yn enwog am Wrach y Rhubyn, neu'r Ladi Werdd fel y'i gelwir hi'n lleol. Ei thric hi yw hedfaa yn ddioln o dŵr i dŵr. Yn ôl un stori bu bron i grys gwrol y dre ei dal umtro. Mae straeon ysbrydion sowldwyr yn gwarthod y muriau, ac am swyddogion diogelwch y castell yn betrusgar iawn cyn mentro i dŵr y faner. Yn ôl yr Echo ym 1984 "Does yr un obony'n nhw'n hofli mynd i ben y tŵr am eu bod yn gallu aroglu gwent cryf persawr yno. Does yr un ferch yn mynd

ddau cryn anferthol - fu'n ddau filwr i'r Arglwydd cyn iddo ddefnyddio hud a



ledrith i'w troi'n crydol i gyhwan uwchben y castell.

Yno hefyd mae ysbryd Madam Griffiths sy'n chwilio'n ofer am ei mab a ddisgynnodd i ddyfnderoedd pydew dudew ger y castell murddan, ymhell cyn iddo gael ei adnwyddu gan yr Ardalydd Bute.

Mae'n aseiniau anesboniadwy yn y castell - hwyraich synau ar ôl ysbryd y Cafalir llawn tralod sy'n symud trwy ddrysau clo a muriau trwchus Castell

oedd yn cael ei gario ar sawl ysgwydd. I ddefnyddio'i eiriau "Mi wn i beth weles i o flaen y car, dim ond ar ôl mynd trwy'r amrantiad o'u laro y gwelais i mai niwal oedd y cyfan".

A dyma ddiwedd y stori? Nage.

Ar ôl clywed y stori ar y radio dyma un o ddarllenwyr y Dinesydd sy'n gweithio yn Swyddfa'r Post ar heul Penarth yn sôn am y stori wrth un o'i gyd-weithwyr.

Credwch chi neu beidio, roedd hwnnw'n gwybod am ardal y stori'n dda iawn, ac roedd ganddo hanes pellach am y lle.

Arferai'r gŵr hwnnw weithio fel tanwir ar y rheilffordd oedd yn mynd o Gaerffili i byllau glo ardal Nantgarw. Roedd y rheilffordd yn cyd-reddeg meun manau a'r ffordd o Gaerffili i Nantgarw, gyda'r rheilffordd ar y dde i'r ffordd ac yn nes at y Groeswen. Arferai boi y tŵr wneud paned o de ar y daith. Yr arfer oedd llenwi'r tegil â

dŵr a'i roi ar y tân i ferwi. Ond roedd un man ar y daith na fyddai nhw byth yn aros os medrent osgoi gwneud - er bod ffynnon o dŵr yno. A'r fan honno'n agos i weithdy British Airways.

Yn ôl y tanwir roedd rhyw deimlad iasoer, annaeorol yn y lle - "eerie" oedd ei air e. A mwy na hynny, fyddai nhw byth yn llenwi'r tegil o'r dŵr glân oedd yno am fod sôn fod y dŵr hwnnw'n achosi salwch, hyd yn oed ar ôl ei ferwi. Roedd cred bod 'na fyneuent gerllaw yn ôl pob sôn.

Gyda llaw, nid Cymro Cymraeg yn llawn o hanes coelion y Cymry oedd tanwir y tŵr. "Mi wn i beth weles i" meddai'r meddyg; "an eerie place" meddai tanwir y tŵr glo.

Rhyfedd ynt?



R RHEW WRTH EIN SODLE NOS HENO



DAW'R NADOLIG A'I LON, AC MAEN NHW'N RDYDD. DYMA RAI O'R W HOSGOI

i fyny yno, ac felly mae'n amhosib mai gwynt yn hofran ar ôl unrhyw ymweilydd sydd yno."

Mae gan Castell Coch ei wala o ysbrydion hefyd, gan gynnwys hanes trysor Ifor Bach, Arglwydd Senghenydd, sy'n cael ei warchod gan

Coch. Yn ôl y goel, dyma ysbryd percheannog y castell adeg y Rhyfel Cartref a guddiodd ei drysor mewn twnel cudd a arweiniai oddi yno i Castell Caerdydd. Ond fe'i lladdwyd pan ffwydrodd baril canon yn ei ymyl.

O gofio hanes tymhestlog Castell

gael ei symud er mwyn gwneud lle ar gyfer tŷ bach y dynion. I dalu'r pwyth am y sen mae'n gadeiriau'n symud yn ddreswm yng nghanol y nos, ac yn cael eu gosod mewn mannau bwrriadol er mwyn baglu'r ceidwaid.

I fyny Heol y Gadeirlan yn hen

W O GWMPAS EICH CARTRE CHU

Calan - er bod coel ar led na fyddai ysbrydion allan yn cael caniatâd i ddychwelyd ar Noswyl Nadolig.

Os fedrwyd chi emyn digon o hyder, pam na wneswch chi cael pip drwy ddrws y clo yn Eglwys Llanilltud Fawr adeg y Nadolig 'ma? Fe allech chi weld eneidiau'r bobol fydd yn marw o fewn y flwyddyn i ddod.

O Forgannwg hefyd y daw'r goel mai ysbrydion pobol wedi boddi yw'r ewngwyn ar frig tonnau'r môr, yn dychwelyd ar eu meirch gwyn adeg y Nadolig, y Pasg a Noswyl yr Holl Sant.

Mae Castell

Caerfili yn enwog am Wrach y Rhŷbyn, neu'r Ladi Werdd fel y'i gelwir hi'n lleol. Ei thrŷ hi yw hedfan yn ddiolof o dŵr i dŵr. Yn ôl un stori bu bron i gryt gwrol y dre ei dal untro, Mae straeon ysbrydion sowldwyr yn gwarchod y muriau, ac am swyddogion diogelwch y castell yn betrusgar iawn cyn mentro i dŵr y faner. Yn ôl yr Echo yn 1984 "Does yr un ohonynt nhw'n hoffi mynd i ben y tŵr am eu bod yn gallu aroglu gwynt cryf persawr yno. Does yr un ferch yn mynd

ddau cryr anferthol - fu'n ddau filwr i'r Arglwydd cyn iddo ddefnyddio hud a

Caerdydd, does ryledd bod ysbrydion yn llechu o fewn y muriau yno. Dyma



bledrith i'w troi'n cryrod i gyhwlan uwchben y castell.

Yno hefyd mae ysbryd Madam Griffiths sy'n chwilo'n ofer am ei mab a ddisgynnodd i ddyfnderoedd pydew dudew ger y castell murddun, ymhell cyn iddo gael ei adnewyddu gan yr Ardalydd Bute.

Mae'n seimau anesboniadwy yn y castell - hwyrach synau ar ôl ysbryd y Cafalir llawn trallod sy'n symud trwy ddrwsau clo a muriau trwchus Castell

dŵr a'i rot ar y tân i ferus. Ond roedd un man ar y daith na fydden nhw byth yn aros os medrent osgoi gameud - er bod ffynnon o ddŵr yno. A'r fan honno'n agos i weithdy British Airways.

Yn ôl y tannwr roedd rhyw denlad iasoer, annaeolrol yn y lle - "eerie" oedd ei air e. A mwy na hynny, fydden nhw byth yn llenwi eu tegl o'r dŵr glân oedd yno am fod sŵn fod y dŵr hwnnw'n achosi salwch, hyd yn oed ar ôl ei ferus. Roedd cred bod 'na fymwent gerllaw yn ôl pob sŵn.

Gyda llaw, nid Cymro Cymraeg yn llawn o hanes coelion y Cymry oedd tannwr y trên. "Mi zen i beth wales i" meddai'r meddyg, "an eerie place" meddai tannwr y trên glo.

Rhyfedd ynt?

lle mae ysbryd yr Ail Ardalydd Bute yn cerdded drwy'r lle tân enfawr yn y Llyfrgell, yna drwy fur 6 troedfedd o drwch, allan i'r cymtedd ac yna drwy fur y Capel ac i mewn i'r stafell lle bu farw.

Yn y neuadd fwyta yng Nghastell Caerdydd, am 3.45 bob bore, mae'r drysau trymion yn agor a chau ohonynt eu hunain, a'r goleuadau yn cynnuai ac yn diffodd heb esboniad yn y byd (y byd hwn o leiaf).

Yma hefyd mae'n Ladi Lwyd wedi ymddangos yn gyson, ac yn llawn triciau bach slei. Ond dim ond iddi gael ei cheryddu, a'i galw wrth ei henw bedydd Sara, mae hi'n bithafio ac yn ymatal rhag mwy o helynt...tan y tro nesa.

Hwytrach mai hon hefyd yw'r Ladi Lwyd sydd i'w gweld yn achlysurol ar bont Treganna dros afon Taf ger y castell. Mae hi'n chwifio tuag at y castell, yn ceisio tynnu sylw'r Dug Robert, y Norman fu'n garcharor yng Nghastell Caerdydd am flynyddoedd.

Nid yr hen adeiladau'n unig sy'n gartrefi i ysbrydion. Mae'r Amgueddfa Genedlaethol sy'n dyddio o'r ganrif hon yn drigfan i ysbryd Dunbar Smith, y pensaer gyfnulluioedd yr adeilad. Cythruddwyd ei enaid e ar ôl i'w hwb, a gladdwyd mewn cist yn yr Amgueddfa.

swyddfeydd yr AA mae ysbryd Alys yn crwydro'n reit aml. Merch ifanc yn gwisgo ffrog ffer yw hi, ei gwallt wedi ei dynnu nôl a'i glymu'n gofyn ar ei gwar. Yn ôl rhai mae hi'n ysbryd caredig, yn ôl eraill mae hi'n beryg bywyd.

I rai mae'n ymddangos â gwên fach anglyaid; i eraill mae'n dangos golwg sinstr, ei gwefusau wedi tynnu nôl ac yn dangos ei dannedd i gyd, ac yn ei gwneud hi i edrych yn beryglus a dychrynlyd. A phan mae hi'n ymddangos fel hyn, mae gwynt allan yn llenwi'r lle.

Mae sôn am boltergeist yn yr adeilad hefyd - lleian wen sy'n symud trwy ddrwsau clo.

Fentrech chi ar eich pen eich hun tybed i dafarn y Cow and Snuffers yn Ystum Taf ym mherfeddion y nos? Hoffech chi gwrrd â gwraich y rhŷbyn - banshū, hyuny yw - sy'n sgrechian yn alafar drwy'r lle?

Neu beth am aros drwy'r nos yn y Captain's Wife yn Sili'r Uwraith mae e'n galw'r stop tap ac wedi golchi'r gwyrddau, mae'r landlord yn ei heglu hi o'na. Wnaiff e ddim aros funud yn hwy na'r angen yn y lle, oherwydd y sŵn celfi'n symud a'r wrach sy'n sgrechian a hedfan yn wyllt gyda'r nos yn y dafarn.

Mae hanes am gapten oedd yn byw mewn plas ar safle'r Captain's Wife yn mynd â'i wraig ar fordaith. Mi fuodd hi farw ar y môr, ac oherwydd ofergoel morwyr am gorff marw ar fwrdd llong, fe ddyblodd ei chorff a'i osod mewn cist i'w chludo adref.

Un nos olau leuad nôl yn Sili, claddodd y capten ei wraig yn y gist, tra fod yr arch i'w chladdu ym mynwent yr eglwys yn cael ei pharatoi. Roedd criw o'r llong yn sbio arno'n gwneud hyn, ac yn credu ei fod yn claddu trysor.

Unwaith i'r capten adael, tyrchodd y criw am y 'trysor', gan gael braw eu hoed pan welon nhw'r cynnwys, dwyn y gist a chuddio'r corff.

A dyma rhan ddi-ddorol y stori. Pan ddychwelwyd stablaur hen dy maes o law o dan y llawr cerrig daethpwyd o hyd i gorff gwraig wedi ei ddyblu. Gwraig y Capten, ei henaid yn chwilo'n ofer am arch i'w chladdu'n Gristionog. A beth am y Capten ei hun? Fe aeth e'n walgo wrth chwilo'n ofer am gorff ei wraig.

oedd yn cael ei gario ar sawl ysgwydd. I ddefnyddio'i eiriau "Mi zen i beth wales i o flaen y car, dim ond ar ôl mynd trwy'r amrantiad o'u taro y gwelais i mai nawl oedd y cyfan".

A dyna adawedd y stori? Nage.

Ar ôl clyued y stori ar y radio dyma un o ddarlennwyr y Dinesydd sy'n gweithio yn Stryddfa'r Post ar heol Penarth yn sôn am y stori wrth un o'i gyd-weithwyr.

Credwch chi neu beidio, roedd hwnnw'n gwybod am ardal y stori'n dda iawn, ac roedd ganddo hanes pellach am y lle.

Arferai'r gŵr hwnnw weithio fel tannwr ar y rheilffordd oedd yn mynd o Gaerffili i byllau glo ardal Nantgarw. Roedd y rheilffordd yn cyd-reddeg mewn mannau a'r ffordd o Gaerffili i Nantgarw, gyda'r rheilffordd ar y dde i'r ffordd ac yn nes at y Gineswen. Arferai bois y trên wneud paned o de ar y daith. Yr arfer oedd llenwi'r tegl â

O CERWCH AR GERED

POWELL LLOYD GYDA EIDDYD O'R TY A THOMAS GYDA EIDDYD O'R TY

AR GLAWR

Dysg a Dawn: Cyfrol Goffa Aneirin Lewis

Roedd y diweddar Aneirin Lewis yn un o'n ysgolheigion Cymraeg disgleiriaf. Bu am gyfnod yn Geidwad Llyfrgell Gymraeg Coleg Caerdydd cyn ei benodi'n ddarlithydd ac wedyn uwch-ddarlithydd yn Adran Gymraeg y Coleg. Roedd yn wr hynaws a charedig, yn meddu ar bersonoliaeth heulog, ac yn adnabyddus i lu o ddarlennwyr y Dinesydd.

Ar fin ei chyhoeddi gan Gylch Llyfryddol Caerdydd mae cyfrol hardd er cof amdano, dan olygyddiaeth Wyn James ac Alun Mathias.

Bydd Dysg a Dawn: Cyfrol Goffa Aneirin Lewis yn cynnwys swmp o'i waith ynghyd â 10 o ysgrifau coffa gan ffrindiau a chydweithwyr.

Mae'r nifer a gyhoeddir o'r llyfr yn gyfyngedig, a gellir ei archebu am £25 oddi wrth Robin Griffith, 26 Parc y Coed, Creigiau, Caerdydd CF4 8LX. Dylech wneud eich sic yn daladwy i Gylch Llyfryddol Caerdydd.



DARLLEN Y DOLIG

Ymhlith y difyrfafr o'r llyfrau yn sane Siôn Corn wrth droed y gwely ddydd Nadolig fydd llyfr teithio newydd Santa, a llyfr am hoff lyfrau Mic y Mwnci.

Gyda chymorth Raymond Briggs a Gwylm Tudur, mae Siôn Corn un haf hirlwm blincin traddodiadol yn penderfynu mynd ar ei wyliau, lle mae Ffrainc yn troi ei fola, ac America yn rhoi popeth alle fe fod ei angen ar ei wyliau - a mw. Ond does unman yn debyg i gartre, glei. Ac os ydych chi'n un o'r bobol gul hynny sy'n meddwl mai ar gyfer plant yn unig mae cartwns, chi sydd ar eich colled. £2.95

Un yn sic i'r plant lleiaf (neu rywun sy'n dysgu darllen) yw Dwi'n Hoffi Llyfrau. Lluniau gogoneddus, a ligatures cywrair yn y cysodi. Gwledd am £2.25.

Yn Llygad yr Haul

Agor cil y drws ar lèn allafar ardal Cefn Brith yn Uwchaled Clwyd mae'r gyfrol hon gan Eifion Roberts. Dyma fro Edward Morris, y bardd-borthmon, a'r baledwr a'r diwygiwr radicalaidd Jac Glan y Gors.

Dan gyd-olygyddiaeth Robin Gwyndaf, ceir cyfeiriadau at enwogion o'r tu allan i Uwchaled fu â chysylltiad agos â'r cylch - Twm o'r Nant, Ceinwen Rowlands, a T Gwynn Jones.

Dyma'r fro y cyfeiriodd D Tecwyn Lloyd ati fel "gwlad yr ymledu gorwelon". Mae'r etifeddiaeth ar gael rhwng dau glawr am £9.95

GWINLLAN A RODDWDYD I NI



IN VINO VERITAS

HUW THOMAS YN EI WINFYD

Y CYNGOR gorau y medrwn ei roi i chi sy'n ystyried prynu gwin fyddai: dewiswch eich hoff win ac anwybyddwch gonfensiynau - mwynhau blas y gwin a'r bywyd 'da'i gilydd sy'n cyfrif.

Ond byddwch yn fentrus, mae dewis aruthrol yn siopau Caerdydd. Oes rhaid cadw at Harvey's Bristol Cream? Yr hydref hwn mwynheais sierch sych Manzanilla Hidelo La Gitana (Oddbins). Rwy'n ei fwynhau fwy â salad neu â chawl nac ar ei ben ei hun.

I godi archwaeth a hwyf, beth gwell na gwin byrlmog

(sparkling)? Oni bai eich bod yn gefnog ac yn barod i dalu'n ddrud am siampaen, gwin byrlmog amdani. Cewch amrywiaeth dda o safon uchel o Awstralia, fel Angos Brut (Sainsbury ac Oddbins).

Gwin coch yw fy ffefryn innau, a'r winllan yn gyfuriog. Anodd rhagori ar Fwrgwyn da, ond mae'n ddrud (£12 y botelaid o leiaf). Bordeaux y bydd ein teulu ni yn ei yfed 'da'r twrci, ond osgowch y Claret generig - nid yw'n werth yr arian. Blaswch, er enghraifft, Paullac 1988, Borie-Manoux (Tesco) heno, ac os yw at eich

dant prynwch botelaid neu ddwy arall. Mae Chile a Bwlgaria yn cynhyrchu amryw winoedd da am bris rhesymol.

Byddaf wrth fy modd yn yfed Port, a'r Nadolig hwn Fonseca 1963 fydd y dewis. A beth gwell ar noson oer na gwin coch wedi'i dwymo ynghyd â sinsir a sinamon? Mae digonedd o Vins de Pays rhad yn yr archfarchnadoedd.

Cyn gorffen y botel - os ydych yn dioddef o ddiffyg traul ar ôl rhuthro drwy'r catalog arwyn-ebol hwn, does dim mwy pleserus na gwydraid o Crème de Menthe neu o Chartreuse, fy ffefryn.

YN DIGWYDD

12 RHAGFYR

Ma'nha Mr Haws, Cwpa Ior Bach

13 RHAGFYR

Cyngerts 25 Mwydiant
Canolfan y Troed, Can y Nadolig
Eglwys Dewi Sant

14 RHAGFYR

Osteoporosis a ddiwedd esgym
Dr Will Evans, Cymdeithas Wyddonol
Caerdydd, Club Ior Bach

Ryth Rhy Hwyr

Cwmni Theatr y Gymraes, Chapter

18 RHAGFYR

Huw Chwain: Neil Rosser a'r
Partneriad ter budd gowyr y Betsys
Club Ior Bach

19 RHAGFYR

Geraid Ierman, Begonia's
Y Glyneddau Lo

21 RHAGFYR

Cyngerts Piano dan laer
9.15pm, Tafarn y Pedwar Bar

23 RHAGFYR

Parti Nadolig Club Ior Bach

31 RHAGFYR

Hanner Pen, Cwpa Ior Bach

Swop y Llenau a Gwasanaeth
Gwynos, y Tabernacl

2 IONAWR

Fla Coll'r Pawo, Club Ior Bach

5 IONAWR

Diddorwch Harc y Tabernacl

8 IONAWR

Alun Mathias, Cymdeithas Cymry'r
Eglwys Newydd, Neuadd Bethe

9 IONAWR

All Symudiad, Club Ior Bach

11 IONAWR

Ysgrifdwrch Gofod Maber
Rhyf Morn, Cymdeithas Wyddonol
Caerdydd, Club Ior Bach

12 IONAWR

Ymystad a'r Llybrell Ganollog
Miranda Norton, Cymdeithas
Carnharawc, Club Ior Bach

Robot a'r Pethys

Eira Merton Jones, y Tabernacl

19 IONAWR

Cyngerts y Bng
Dover Rock, y Tabernacl

23 IONAWR

Yn Gymraeg: Yng Ngwlad yddi a'r Fro
Dwrnod Agored i'r iaith
Neuadd Dewi Sant

2 CHWEFWR

Noson geidatol yng nghartref
San a Huw Thomas
Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl

5 CHWEFWR

W J Gwynedd
Geraid Eckley
Cymyrdorion Caerdydd, Caeol y Crys

9 CHWEFWR

Chwedol a Chw
Elaonwy a T J Rhy Jones, Y Tabernacl

12 CHWEFWR

Y Pedwar, Ddara a Chw
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd
Neuadd Bethe

MAE'CH Ffordd yn Agored



BYD Y BOL

GŴYL Y GWLEDDA

MINWEL TIBBOTT

CEFAIS GAIS gan y golygydd am rysait traddodiadol ar gyfer y Nadolig. Wel does dim i ragori ar y deisen dorth a baratoid yn gyffredin yn Ne Cymru gynt, neu'r dorth fraith/frith fel y'i gelwid yn siroedd y Gogledd. Dyma'r manylion:

- ¼ pwys o flawd plaen
- ¼ pwys o fenyn
- 2 owns o lard
- ¼ pwys o siwgr coch mân
- ¼ pwys o resins
- ¼ pwys o syltanas
- ¼ pwys o gwrens
- ychydig o nytmeg a sinamon
- ychydig o groen lemon wedi'i falu
- 3 wy
- ¼ owns o furum
- ychydig o halen

Cymysgu'r burum ag ychydig o siwgr a dŵr cynnes, a'i adael i godi mewn lle cynnes am ychydig o amser.

Rhwbio'r menynt a'r lard i mewn i'r blawd, ychwanegu'r defnyddiau sych eraill a'u cymysgu'n dda. Gwneud 'llygad' yn y canol ac arllwys y burum iddo. Curo'r wyau a'u hychwanegu at y burum i wlychu'r deisen. Dylai ansawdd y cymysgedd fod ychydig yn wlypach na thoes bara, a gellir defnyddio ychydig o ddŵr claeaf i'w gael i'r ystwythder iawn.

Rhoi lliain dros wyneb y badell a gadael i'r cymysgedd godi mewn lle cynnes cyn ei roi mewn tun cynnes wedi'i iro ymlaen llaw.

Gadael i'r dorth godi am ychydig amser eto. Yna ei chrasu mewn ffwrn o wrës cymedrol am ryw awr a hanner (325°F, 163°C, Nwy 3).

SÊR Y NADOLIG

ARIES

Fe fyddwch yn teimlo ar adegau fel pe baech chi'n rhedeg fel y gwynt ac eto'n aros yn yr unfan. Gellwch feio eich planed-reolwr Mawrth am hyn. Yr unig ateb yw bod yn amyneddgar a pheidio â beco-gormod pan na fydd pethe'n mynd fel y dylen nhw.

TAURUS

Bydd galw amoch chi – yn erwedig yn ystod dathliadau'r Wyl – i gymodi rhwng dwy elfen gwerylgar naill ai yn eich teulu neu yn y gwaith. Cymrwch ofal i beidio â gyrru'r car yn rhy gyflym, mae damweiniau'n bosib.

GEMINI

Dylai diwedd '92 a dechrau '93 fod yn gyfnod ardderchog i chi, pan ddaw sawl cyfle llwus i'ch rhan. Gwnewch yn siwr eich bod yn cymryd mantais ohonyn nhw a pheidio â gadael i'ch lwc lithro drwy'ch bysedd. Mae teithio tramor yn bosib iawn.

CANSER

Yn union pan fyddwch chi'n meddwl fod eich bywyd yn rhedeg yn llyfn fe ddaw rhyw rwystr i droi'ch trefniadau mwyaf gofalus ar eu hechel. Falle bydd iechyd rhywun agos (chi'ch hunan hyd yn oed) yn achosi rhywfaint o bryder i chi dros yr Wyl.

LEO

Fe allai taith neu ymweliad annisgwyl-odd wrth hen-ffrind fod yn llwus i chi. Mae digon o gymdeithasu o'ch blaen dros y Nadolig, peidiwch â gorwneud y dathlu! Mae hwn yn gyfnod rhmantus iawn i chi – mwynhewch!



EIRY PALFREY

VIRGO

Daw llythyr hir-ddisgwyliedig cyn bo hir, ond peidiwch â chael eich synnu gormod gan ei gynnwys, mae'nna sioc fach (bleserus) mewn stôr i chi. Ceisiwch ffwrwyno'ch awydd i fod yn rhy feiriadol o'ch teulu neu'ch cydweithwyr.

LIBRA

Mae eich bywyd personol yn mynd i fod yn llai stormus o hyn ymlaen. Mae'r gwaethaf drosodd, ac fe gewch chi nerth rhyfeddol o rhyw gyfeiriad i dorri cwys eich hunan o'r diwedd. Peidiwch â chymryd unrhyw nsg anannol am rai wythnosau.

SGORPIO

Er taw dyma dymor y gwario mae hwn yn mynd i fod yn gyfnod llwus iawn i chi yn ariannol. Mwynhewch e ar bob cyfri, ond cofiwch gadw ceiniog at ddiwrnod glawog. Cynlluniwch yn ofalus yn y gwaith, peidiwch â gadael pethau tan y funud ola.

SAGITTARIUS

Mae cyfnod cymdeithasol a hwyliog iawn o'ch blaen. Fe ddylech gael newyddion da ynglyn â'ch gwaith hefyd – mae dyrchafiad neu ganmoliaeth ar y ffordd i chi. Os bu arian yn brin yn ddiweddar fe ddylai pethau wella cryn dipyn o ddechrau '93 ymlaen.

CAPRICORN

Bydd pobol yn dibynnu amoch chi nawr, mae'n bosib y cewch gyfle i arwain grŵp o bobol – ac fe gewch gydweithrediad llwyr oddi wrthyn nhw. Rydych chi braidd yn sensitif ar hyn o bryd ac yn teimlo fod pobol yn cymryd mantais ohonoch.

AQUARIUS

O 1 Rhagfyr bydd y darnau i gyd yn syrthio i'w lle, ac fe fydd eich trefniadau i gyd yn rhedeg yn llyfn. O'r diwedd mae gennyh lawer mwy o nerth mewnlol a chaiff neb gymryd mantais ohonoch chi o hyn ymlaen.

PISCES

Byddwch yn gweld perspectif newydd ar eich bywyd o hyn ymlaen, yn erwedig os ydych yn ymwneud â byd addysg. Mae'n bosib y cewch chi newyddion calonogol iawn ddechrau mis Rhagfyr. Ond falle bydd creisis bach yn codi yn y cartre.

MAE'R Ffordd yn Agored



LLUN-GWENER
18-22 IONAWR
5.30pm

Matinés ddydd
lau 21 a Gwen 22 Ion
am 2pm



**SESAME STREET
LIVE!**

Y cymeriadau byd enwog o Sesame Street mewn sioe llawn caneuon, dawns, dillad lliwgar a sbri di-stop!

**Neuadd Dewi Sant
Caerdydd**



Tocynnau ☎ (0222) 371236/235900

Tocynnau £6.50 £7.50 £8.50 – gostyngiad o £2 ar bob pris tocyn i blant, YouthCard, myfyrwyr, pobol dros 60 a'r diwaith
Sesame Street Muppets © 1992 Jim Henson Productions, Inc. Mae eira o logo Sesame Street Live yn fridiol masnach a gwasanaeth y Children's Television Workshop. © 1992 Children's Television Workshop.



Y GYMRAES!

YN CYFLWYNO

BYTH RHY HWYR

14 RHAGFYR, 8.00pm, CANOLFAN CHAPTER CAERDYDD

Tocynnau wrth y drws

CÂN I GYMRU '93

Ydych chi'n gallu cyfansoddi caneuon?

Ydych chi eisiau ennill

£1,000

ynghyd â thlws hardd a chytle i gystadlu yn Iwerddon?

Y dyddiad cau yw Ionawr 22 1992 ac mae'r ffurflenau cais ar gael oddi wrth Teledu'r Tir Glas

Maesinfa
Caernarfon
Gwynedd LL55 1RS
Ffôn (0286) 675766



Noddir gan y

MERLIN CALON DEG

Ken Innes
yn dathlu penblwydd
ei galon newydd
yn ddeg oed

Uchafbwynt y dathlu –
ymweliad â'r Grand Canyon

**7.00pm nos Lun
28 Rhagfyr ar S4C**



Yn Gymraeg...
...yng Nghaerdydd
a'r Fro

Diwrnod Agored i'r Iaith

Lefel 2, Neuadd Dewi Sant
Dydd Sadwrn 23 Ionawr 1993
10.00 – 5.00

- Darlun o fywyd Cymraeg Caerdydd a'r Fro
- Stondinau gwybodaeth – beth sy 'mlaen yn Gymraeg
 - Gweithgareddau i oedolion a phlant
 - Adloniant
 - Stondin lyfrau
 - Cymorth i ddysgwyr
 - Cerddoriaeth amser cinio ar Lefel 3 yng ngofal Delwyn Siôn



Dewch yn llu i brofi bod y Gymraeg yn fyw yng Nghaerdydd a'r Fro Mynediad yn rhad ac am ddim!



NOS HENO


GWYL Y RHOI - OND RHOI BETH?

PIGION Y TYMOR

DAL YN SGWRIO am bresant anarferol i'r rhywun pwysig 'na? Peidiwch â chwilio ymhellach! Mae Siop Jen yn Castle Arcade eleni eto wedi dod i'r fei â'r anrheg Nadolig mwyaf cywrair welodd neb, sef tapestri o goeden Nadolig o gynllun o'r eiddo Ruth Harries.

Mae'r goeden bellach yn rhan o gasliad ehangach o dapestriau Cymraeg yn y siop, fel yr adnod 'Yr Arglwydd yw fy Mugail' a 'Cartref'. Mae'r tapestriau'n dod fel citiau - chi adref (neu bwy bynnag arall y Dolig 'ma) sy'n cael troi eich llaw at y pwytho cywrair, y cyfan am £9.95.

Ruth Harries sydd hefyd yn gyfrifol am sampler diweddar sy'n dangos yr wyddor Gymraeg yn ei holl ogoniant, yn frith o fanion pitw ac yn ddarlun perffaith i'w osod ar fur y stafell fyw.



Mae'r detholiad yn parhau gyda tapesriau bychain tua 4 modfedd sgwâr o flodau a ffrwythau gwahanol fel pansis a mefus, jest y peth i rywun sydd am fentro am y tro cynta i fyd y pwytho blaen nodwydd.

Ac i, chi y person cyntaf i alw heibio Siop Jen â'r Dinesydd hwn yn eich llaw, fe gewch chi yn anrheg Dolig cynnar y cit coeden Nadolig!

ATODIAD AR DRAUL Y DINESYDD?

Mewn cyfarfod o'r Gymdeithas Papurau Bro ar 5 Rhagfyr, penderfynodd cynulliad o gynrychiolwyr chwarter papurau bro Cymru ganiatau datblygiadau pellach yn y cynllun arfaethedig i gynhyrchu atodiad hysbysebu cenedlaethol i'r holl papurau bro.

Yn y cyfarfod gofynnodd y Dinesydd am eglurhad i rai pwyntiau sylfaenol sydd o bosib yn mynd i effeithio'n andwyol o ran incwm ar y Dinesydd.

Ni chafwyd atebion boddhaol o gwbl i'n cwestiynau, er bod swyddogion y Gymdeithas yn cydnabod sefyllfa unigryw y Dinesydd ymhlith y papurau bro.

Bydd yr atodiad newydd yn rhannu incwm hysbysebion ymhlith yr holl papurau bro. O gofio nifer darllenwyr y Dinesydd, a gawn ni gyfrandeg prorata, o'r arian hwnnw?

O ystyried yr atodiad, a fydd arian ar gael i'w fewnosod yn y Dinesydd, ac i dalu costau postio ychwanegol i'n tanysgrifwyr?

Bydd yr atodiad newydd yn sicrhau ddwyn cyfran o incwm hysbysebu y Dinesydd. A gawn ni'n digolledu'n ddigonol er mwyn gallu parhau i gyhoeddi?

Rydym yn dal i ddisgwyl atebion i'r pryderon hyn.



DOLIG Gadi Llwyd

Mae 'na nifer o hen ddeddfau sy'n ymwneud â Dydd Nadolig ei hun. Er mwyn gwneud yn siwr na fydd eich Nadolig yn gorffen yng nghell yr heddlu, cynnwch sylwl!

Gewch chi ddim canu carolau - heb ganiatad y Prif Gwnstabl. O dan ddeddf a basiwyd ym 1939, fe alicch chi gael dirwy o £400 neu 6 mis yng ngharchar.

Gewch chi ddim chwaith gusanu pwy bynnag fynnoch chi dan yr uchelwydd. Aeth un ferch fanc â'i hachos i'r llys pan gafodd gusan yn groes i'w hevyllys o dan yr uchelwydd, ac fe enillodd!

Allwch chi ddim gwneud mins peis ar Ddydd Nadolig yn ôl deddf gan Harri'r VIII ym 1536 (yr un flwyddyn â deddf lawdrwm arall ganddo i ni'r Cymry).

Does gan neb - ddim hyd yn oed y gwasanaethau angenrheidiol - yr hawl i weithio ar Ddydd Nadolig, yn ôl deddf Siarl II a basiwyd ym 1677.

Fe waharddodd Harri'r VIII eto fwyta plwm pŵdwr ar Ddydd Nadolig am ei fod yn afrefiad ffaidd ac eilunaddolgar.

Gochelwch rhag derbyn anrhegion gan eich cyflogwr. Cafodd perchennog siop ei farnu'n euog o dorri'r Ddeddf Atal Llygrediaeth a Llwgwrwbrwy am roi £5 yn anrheg i weithiwr swyddfa oedd yn arfer prynu sigârs fel anrhegion i'w gleients yn y siop.

Gewch chi ddim gyrru i'r eglwys yn ôl deddf o 1551. Mae'n rhaid i chi gerdded yn ôl ac ymlaen yno. Mae'r ddeddf hefyd yn dweud bod yn rhaid i bawb fynd i'r eglwys ar Ddydd Nadolig.

Ac os meiddiwch chi yrru, byddwch yn ofalus o lle barwch chi. Yn ôl deddf o 1780 mae gan yr heddlu'r hawl i feddiannu a gwerthu unrhyw gerbyd sydd wedi parcio gerllaw eglwys, a rhoi'r elw i'r tlodion.

Nadolig Llawnen i chi gyd, ond byddwch yn ofalus rhag ofn i chi ddigio'r ddeddf, a phrofi hwy i'r wyl o dan glô!

YMGYRCH DROS SENEDD I GYMRU RYDYM ANGEN YSGRIFENNYDD/ES GWEINYDDOL

Mae'r ymgyrch dros Senedd i Gymru, sydd bellach ag 800 o aelodau, yn newid ger yn y Ffeydd Newydd. Bydd yn cyflwyno â TUC Cymru a Cytun er mwyn sefyllu Pwyllgor Llyso Cyfansoddiadol i Gymru. Cynhelir cyfarfodydd, a sefydlir swythur weithredol yn eiddo'r Cymru.

Er mwyn helpu â dod â maen y projectau hyn i'r wal, mae angen Ysgrifennydd(es) Gweinyddol i weithio'n glis â'n Hysgrifennydd a Swyddog y Wasg newydd, John Humphries.

Swydd wirfoddol yw hon, er y telir costau. Mae angen Ysgrifennydd(es) Gweinyddol igallu hon i'w swydd rannu er mwyn trethu a chynnal ein swyddfa fechan yn y Rhâth, Caerdydd. Y par ddyfletwyddau fydd cadw cysylltiad â'n haelodau, ateb y post, a chydlynu â swyddogion eraill yr Ymgyrch. Byddai sgiliau prosesu geiriau o fanteis, er y gellid dysgu'r rhain fel rhan o'r swydd.

Rydym yn rhagweld y bydd yr Ysgrifennydd(es) Gweinyddol yn gweithio yn y swyddfa tua dwywaith yr wythnos am awr neu ddwy, er mai tasg y personolau a benodir fydd cyrrillio'n llusserlen. Bydd angen hefyd bod yn bresennol yng nghyfarfodydd chwarterol Cymru yr Ymgyrch.

Os ydych chi ddi-ddordeb yn y swydd, cysylltwch â Chadeirydd yr Ymgyrch, John Osmond ar 0222 709318

MIKE DAVIES WELSH LOVESPOON STUDIO AR GYFER YR ANRHEG NADOLIG PERFFAITH

Y casgliad mwyaf o lwyau caru cerffiedig am y prisau gorau posib


YN SYTH GAN Y CERFIWR

Am ddim - personoli llwyau caru wrth i chi aros
Am ddim - llyfr am lwyau caru gyda phob llwy
Am ddim - gostyngiad yn y pris (dowch â'r hysbyseb hwn gyda chi)

LLWYAU CARU GAN MIKE DAVIES.
AR GAEL YN UNIG O'I STIWDIO YN
8 CASTLE ARCADE, CAERDYDD
FFÔN 0222 231500



NID EWN NI AR GERED



POBOL



Ganrif yn ôl i fis Ionawr y ganed yng Nghaerdydd y Cymro a gyfrannodd fwyaf o bosib i adloniant ysgafn Lloegr ddechrau'r ganrif hon.

O dras hen linach o weinidogion y Diwygiad Cymraeg, aeth David Ivor Davies ymlaen i fod ar y brig ymhlith diddanwyr llwyfan Llundain, dan ei enw mwy cyfarwydd Ivor Novello.

Nia Hall Williams sy'n dilyn ei drywydd.

CANMLWYDDIANT CLOCH ARIAN

Yn ôl Adroddiad Salem, Canton, yn 1895 roedd David Ivor Davies yn un o blant y capel, a'i fam Clara Novello Davies yn un o'r organyddion swyddogol. Cofnodwyd ei enw'n gyson tan 1908, ac efallai ei fod yn bresennol yn Literary Society y capel ym 1900 pan drafodwyd y cwestiwn *Do the Welsh Excel at Music?* Does dim tystiolaeth o'i bresenoldeb ond yn sicr fe dyfodd y Cymro bach, David Ivor, i ragori 'at music', ac i ennill clod byd-eang dan ei enw profesiynol Ivor Novello.

Daeth i'r amlwg gyntaf ym 1914 yn theatr yr Alhambra yn Llundain, lle roedd y Gymraes ifanc Sibil Vane yn cynnal cyngerdd ar hwnnw Sul. Dewisodd ddarnau operatig ar gyfer y rhan gyntaf o'i ddatganiad ac yna camodd i flaen y llwyfan i ganu cân wladgarol newydd sbon. Ei chyfeillydd Ivor Novello oedd y cyfansoddwr ac fe glywodd y gynulleidfa'n cymeradwyo'n ddiddiwedd ac yn curo'u traed ar lawr wrth ymuno yn y gygan. Daeth llwyddiant ysgubol y gân honno, *Keep the*


Home Fires Burning, ag enwog- rwydd dros nos i'r gwr golygus, 21 oed wrth y piano. O'r dydd hwnnw gwyddai bod gyrfa ddisglair - a ffortiwn - yn ei ddisgwyl yn theatrau Llundain.

Roedd cisioes yn byw yn y ddinas, mewn fflat uwchben Theatr y Strand, ac yno yn rhif 11 Aldwych y treuliodd weddill ei oes, heblaw am gyfnodau yn ei ail gartref Red Roofs ger Maidenhead. Ond yng Nghaerdydd y gwelodd olau dydd am y tro cyntaf.

Fe'i ganed ar 15 Ionawr

1893 yn Llwyn-yr-Eos, Heol y Bontfaen (tŷ sydd nawr yn cael ei adnewyddu ar gyfer canmlwyddiant ei eni), yn fab i Clara Novello a'i gwr David Davies. Roedd yntau'n gasglwr trethi, dyn golygus â thrwch o wallt tywyll. Prin bod rhaid nodi mai athrawes gerdd adnabyddus ac arweinydd lliwgar y Royal Welsh Ladies Choir oedd ei fam. Cafodd hithau lwyddiant mawr fel hyfforddwraig llais, piano, a chyda'i chôr - enillwyr yn Eisteddfod Ffair y Byd yn Chi-

HEB DORRI EIN SYCHED



POBOL



• Novello a'i fam

cago ym 1893.

Ym 1922 cyflwynwyd Teyrnged Swyddogol iddi gan dref Caerdydd i ddathlu 50 mlynedd o gyhoeddiadau proffesiynol - y cyntaf pan oedd yn 10 oed!

Prynwyd yr Anerchiad mewn sêl yng Nghaerdydd dair blynedd yn ôl gan Fanc Lloyds, a'i osod gyda memorabilia Novelloaidd eraill yn eu swydd-feydd yn 11 Heol y Gadeirlan, y tŷ lle bu'r teulu'n byw ar ôl symud o Heol y Bontfaen.

Erbyn hynny roedd Ivor Novello yn dechrau dilyn yn ôl traed ei fam. Meddai ar lais swynol a pharodrwydd i ymddangos yn gyhoeddus. Dechreuodd gystadlu ac enillodd droeon.

Yn Eisteddfod Caernarfon 1906 derbyniodd wobr arbennig gan feirniaid yr unawd soprano am ei berfformiad mewn cystadleuaeth i fer-ched! Dywed Madam Clara, Pencerddes Morgannwg yn yr Orsedd, wrth sôn am ei hwyddiant eisteddfodol yn ei hunan-gofiant *A Life I Have Loved*:

"I could not see his face through my tears and my senses were dulled to every sensation but that of his young voice seeking to vindicate his mother's teaching."

Mae'n amlwg bod dylanwad ei fam yn drwm ar David Ivor Davies. Trwy ei dycnwch hi y cyrhaeddodd Rydychen

mewn pryd i gystadlu am, ac ennill, ysgoloriaeth gorawi i Goleg Magdalen - ac yntau'n 10 oed. A thrwyddi hi y cafodd ei flas cyntaf o'r theatr. Pan fyddai Clara'n cynnal ei gwersi canu yn Llundain, arferai fynd â'i mab gyda hi ac yno gwelodd y dramau a'r sioeau a'i ysgogodd i gyfansoddi a pherfformio.

Onid er cymaint ei ddyled i'w fam, ei ddoniau a'i dalentau ei hun a fu'n sail i'w lwyddiant a'i enwogrwydd. Ar ôl Rhyfel 1914-18 bu'n actio mewn ffilmiau a dramâu yn Llundain a Hollywood, ac yn gyfansoddi'n ddilbaid. Gwelodd wawrio Oes Aur ei yrfa ym 1935 gyda'r perfformiad cyntaf o'i sioe gerdd *Glamorous Nights* yn Drury Lane.

Parhaodd ei gysylltiad â'r



• Glamorous Nights yn Drury Lane

theatr honno dros gyfnod o 16 mlynedd trwy restr hir o gynrychiadau disglair - *Perchance to Dream*, *Careless Rapture*, *Crest of the Wave*, *The Dancing Years*.

Synnwyd miloedd ar fil-oedd, bryd hynny, gan ganeuon fel *We'll Gather Lilacs*, a *Dearest Dear*. Roedd ei straeon bob amser yn rhamantus ac yn ddramatig. A'r digwyddiadau ynddyn nhw ar y llwyfan, fel llong-ddrylliad, dacargryn, neu ddamwain erchyll i drên, yn ddigon arbrofol yn eu dydd i'w cymharu ag effeithiau syfrdanol *Cats* a *Starlight Express* yn yr 80au. Ond o'i osod yn ei gyddestun hanesyddol, gellid awgrymu mai ei brif gyfraniad oedd cynnig dihangfa i'w gynulleidfa ar gyfnodau tywyll dirwasgiad y 30au, dyddiau rhyfel a'r blynyddoedd llwm ar ei ôl.

Ym 1944 daeth cwmwl i dywyllu ei fywyd; fe'i gyhuddwyd o droedd dan y Ddeddf Dogni Petrol. Er iddo wadu'r cyhuddiad â'i holl egni, fe'i ddedfrydwyd i garchara threuliodd fis yn Wormwood Scrubs. Eto, daeth yn ei ôl i berfformio ac i gyfansoddi, ac i weld llwyddiant mawr ei gynhyrchiad olaf *King's Rhapsody* cyn ei farwolaeth sydyn ym 1951.

Mewn teyrnged iddo yn eglwys St Martins-in-the-Fields dywedwyd: *"The Powers that singled him out for special favours managed to devise a wildly improbable person who was nevertheless real. No one so good-looking should be a composer hummed throughout the English-speaking world. Or, if so, he should*

not be a popular playwright or a romantic actor. He must have been a trial to his friends - a martinet to the small fry of the stage?"

Yn ôl ei gofiannwyr, meddai ar yr holl ddoniau a soniwyd amdany'n nhw yn y deyrnged, ac roedd yn gyfaill da ac yn gyflogwr teg.

Faint o Gymraeg oedd ganddo tybed? Roedd Clara Novello yn ferch i Jacob Davies, yntau'n arweinydd corau ac yn un o bileri Salem lle bu'n drysorydd ac arweinydd y gân. Cymraeg oedd iaith ei gartref. Mae hanes amdano'n dweud (fel llawer tad arall) "Nid wyf yn dy ddeall di" wrth i Clara fach ymarfer ei Saesneg prin arno.

Roedd hynny yn ystod 60au'r ganrif ddiwethaf, ond erbyn troad y ganrif hon yn ystod cyfnod magwraeth Ivor Novello, doedd y Gymraeg ddim mor ffasiynol yng Nghaerdydd (hyd yn oed yn Salem), ac mae'n anodd gwybod faint o iaith gyntaf ei fam a drosglwyddwyd iddo.

Cyfansoddodd Novello un sioe gerdd *Valley of Song* gyda chefnidir Cymreig, ond lleolwyd ei gynrychiadau eraill yn China a Fienna neu, wrth gwrs, yn Lloegr.

Dywedodd un o'i gydweithwyr, Chris Hassale, bod Ivor Novello wedi ei herio un diwrnod i osod geiriau *"as English as Elgar"* ar un o'i donau. Gwnaed hynny, ac mae *Rose of England, Breathing English Air* yn un o'i ganeuon enwocaf. Does dim sôn am iddo holi am eiriau *"as Welsh as Joseph Parry"*.

Sy'n drueni o gofio bod ei wreiddiau'n ddyfn yn yr hen Forgannwg Gymraeg. Ei henhendaid oedd y Parch William Evans, Tonyrefail, un o hoelion wyth y Methodistiaid yn y ganrif ddiwethaf. Fe'i aned ym 1795 ac enillodd yr enw Cloch Arian y De am ei ddawn fel pregethwr. Bu farw ym 1891. Pe bai wedi cael byw am ddwy flynedd arall byddai efallai wedi cael cyfle i gyfarch ei or-or-wyr David Ivor Davies, un arall a allai hawlio'r enw Cloch Arian, er bod y gloch honno wedi canu ymhell o Donyrefail a Chaerdydd.


HEB DORRI EIN SYCHED



CROESAIR AP LEWSYN

NADOLIG A'R CALAN 1992-93

RHIF 125



Y Croesair Cymraeg sy cystal a chroesair y Times
The Welsh Crossword is available in Welsh in the Times
at a special reduced price of £1.99

AR DRAWS

- Ystyr y pabi coch (5)
- Trafferthion sy'n codi o bendil aur yn siglo (9)
- Mi âf yn gyfrifol am gynllun i ddatblygu Bae Taf (6)
- Ymuno â'r gymdeithas gan ddweud "O! dyma le i droi" (8)
- Anghysur fel ta fo'n symud yr anhwylystod (12)
- Yr eiddo sydd wrth gefn y fenter (7)
- Gwn i Dot fod yn ddiestadl a dinod (7)
- Actiwr-ddinesydd a fedr bortreadu cysegredigrwydd (12)
- Cartref Ann Thomas, canad Wil Hopcyn (4,4)
- Deunydd rhaff a sanau (6)
- Bob tri mis fe gewch synwyr o lwch tre ar chwâl (9)
- "Y nos dywell yn distewi, _____ Yn cuddio Eryn"
(Gwallter Mechain) (5)

I LAWR

- Gwnaed llw ar ôl gosod y rhan gyntaf a thynnwyd y cyfan i lawr (9)
- Symudais y plygion i gyd, a thylais o'r herwydd (10)
- Yr wyf yn mynd i ganol clust ac yn torri'r darn bach olaf. Poenus iawn! (7)
- Ofnant ei sain gyffrous. Mae pethau di-les yn deillio ohoni (12)
- Ceir rhywbeth gwerthfawr mewn swmper iawn! (4)
- Dechrau simsan i gerdd y gadair, ond y cyfan yn rhoi safbwynt cadarn (5)
- Tebyg i brysurddeb mawr wrth ddifa ymlusgiad (3,3,6)
- Yn y llinach batriarchaidd (2,3,2,3)
- Gwasgar swm y bodau diddysg (9)
- 17 "_____ y Pentan" ... Cyfrololaf DO (7)
- 19 Proffes ynadol? (5)
- Y grym a fynegrir mewn un erthygl bwysig (4)

DATRYSIAD 124



CYSTADLEUAETH 124

Derbynwyd 21 ymgais, rhyw wall bach mewn 6, a'r 15 arall yn hollol gwir. Yr enw a dynnwyd ar hap oedd Michael Francis, Casnewydd. Bydd tocyn llyfr ar ei ffordd yn iuan. Enwau'r datrysyywr cywir eraill yw Sylvia Evans, Morfudd Davies, Heledd Hall, T Arfon Owen, Carys Humphreys, Huana Simpson, Gwawr Jones, Dilys Gunston, Gwenllian Gwyn Jones, Hugh Rees, Marian Lake, John G Breese, Gethin Jones, a Delwyn Tibbott.

CYSTADLEUAETH 125

Tocyn llyfr £5 ar gael eto. Pob ymgais a'ch enw a'ch cyfeiriad i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn 9 Ionawr 1993

CLWB IFOR BACH

11 HEOL WOMANBY, CAERDYDD CF1 2BR
0222 232199

NÔL AC YMLAEN YN SACH IFOR BACH

STORI DDOE...

Wrth agosau at ddegfedd pen-blwydd y clwb, dyma stori fach o'r hen ddyddiau pan roedd Clwb Ifor Bach yn glwb i'r Llang Brydeinig.

Agorwyd drysau Clwb Ifor ym 1983, ond roedd Cymdeithas Clwb Cymraeg eisoes mewn bodolaeth ers dechrau'r ddegawd. Nod y gymdeithas hon oedd codi arian a chwilio am adeilad i sefydlu clwb Cymraeg yn y sefydliad. Cymerwyd tair blynedd hir cyn cyrraedd y nod a symud i mewn i Heol Womanby, ac ynystody cyfnod hwnnw cawfyd sawl siom ond hefyd digon o hwyl.

Un o'r tasgau ar gyfer y swyddogion bryd hynny oedd ymweld â chlybiau ac adeiladau eraill oedd ar werth er mwyn dod o hyd i'r man delfrydol - ac nid hawdd oedd plesio pawb!

Buom yn ymweld ag un clwb yn Woodville Road, lle llawn

cwsmeriaid ychydig yn 'amheus', a oedd bendant ddim yn aelodau o Gapel y Crwys, rownd y gornel bryd hynny. Ni phrynwyd y lle fel clwb Cymraeg, yn bennaf gan ei fod y tu allan i ganol y ddinas, yn agos i dai, ac felly'n annhebyg o dderbyn cefnogaeth yr heddlu i gael trwydded i agor yn hwyr y nos.

Ac felly y bu. Ychydig flynydd oedd yn ddiweddarach roedd hi'n ddiddorol gweld y clwb hwnnw'n cael ei atgyweirio a'i ail-agor - ie, fel clwb yr heddlu. Ac oes, mae ganddyn nhw drwydded hwyr, uno'r eithriadau prin y tu allan i ganol y ddinas!

Roedd clwb arall ar werth bryd hynny yn ardal Pontcanna - mwy o dŷ teras wedi ei addasu na chlybby go iawn. Dau lawr, a dau far cul, digymeriad. Yr un problem eto o safbwynt trwydded, a hefyd roedd pawb yn gwbl gytŷn nad oedd y lle yn ddigon mawr nac yn ddigon deniadol i fod yn adeilad teilwng i

Gymry Caerdydd. A beth yw hynt yr adeilad hwnnw erbyn hyn meddech chi? Wel, ie, dyma'r Cameo Club bellach. Ac i chis y ddim yn gyfarwydd â bywyd nos Caerdydd, dyma bellach brif gyrchfan Saesneg i Gymry Cymraeg Caerdydd ar y penwythnosau.

Ydi, mae'n rhyfedd o fyd! Un peth calonogol o gymharu heddiw â'r cyfnod hwnnw yw bod bellach digon o siaradwyr Cymraeg ifanc yn y ddinas i lenwi o leiaf ddau glwb. Roedd hynny'n sicr ddim yn wir ddegawd yn ôl - felly beth am agor ail glwb Cymraeg yng Nghaerdydd?

...A STORI HEDDIW

Mae yna sawl noson fawr yn gysylltiedig â'r clwb yn digwydd dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Wedi llwyddiant yr Wyl Roc ddechrau'r mis, bydd penwythnos arall o'r sêr ar y 18fed a'r 19eg o Ragfyr. Ar y nos Wener bydd

Huw Chiswell a Neil Rosser yn perfformio yn y clwb mewn noson arbennig er budd glwyr y Betws, y pwll ger Rhydaman sydd o dan fygythiad cau.

Noson yn ddiweddarach, y Gyfnewidfa Lo yn y dociau fydd y gyrchfan gyda Geraint Jarman a'r Beganifys yn chwarae mewn noson i'r Gymdeithas ac Ankst, gyda'r Clwb yn cynnal y bar yno hefyd.

Erbyn hyn mae'n dod yn draddodiad i lawer ddathlu'r flwyddyn newydd yn y clwb. Mae hi'n gyfle braf i groesawu nifer o Gymry Caerdydd nôl i'r ddinas dros gyfnod y gwyliau, ac addas iawn felly mai brodorion o Gaerdydd fydd yn cynnal yr adloniant ar Nos Galan eleni. Bydd Hanner Pei ddim yn ddiethr i gwsmeriaid Nos Galan, ac mae'n siwr o fod yn noson i'w chofio - archebwch eich tocynnau o flaen llaw, rhag ofn cael eich siomi!



LLYTHYR KEN O KENTUCKY (BRON!)

Ddegawd yn ôl cafodd Ken Innes drawsblaniad calon. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach aeth ar daith ei fywyd i'r Unol Daleithiau - ynghyd â chriw teledu. Dyma'i Lythyr o America.

"Peth od imi gychwyn ar hyn o daith


Dros y miloedd ar filoedd milltiroedd maith"

Ie, dyna eiriau cyntaf cerdd Syr Thomas Parry Williams i'r Grand Canyon. Y rheswm i mi fynd yno oedd i gadw addewid a wnes i mi fy hun ar ôl fy nhrawsblaniad calon ddeng mlynedd yn ôl. Felly ar y Sadwrn ym mis Medi dyma Anne a minnau yn gadael am America, hedfan o Heathrow i Salt Lake City.

Drannoeth codi'n fore i glywed Côr y Mormoniaid yn ymarfer ar gyfer eu telediad boreuol. Erbyn naw o'r gloch roedd y lle'n orlawn, a'r canu'n wefreiddiol. Yno, cyfarfod â Dr Noel Owen, brodor o Sir Fôn, sydd wedi troi at y Mormoniaid, ac sy'n dysgu Cemeig ym Mhrifysgol Utah.

Cymeriad hoffus arall oedd Ronald Denis, gŵr sydd wedi dysgu Cymraeg ac sy'n ddarlithydd mewn Portiwgèg yn yr un brifysgol. Mae e hefyd yn dysgu Cymraeg i'r rhai sy'n awyddus i ddysgu'r iaith, ac wedi sgrifennu llyfr diddorol *The Call of Zion*, sef hanes alltudiaeth y Mormoniaid Cymreig cyntaf i America ym 1849. Fe forion nhw ar y llong Buena Vista dan arweiniad Dan Jones, un o'r dynion olaf i weld Joseph Smith yn fyw.

Gadael Salt Lake City am y Canyons, yn gyntaf Bryce Canyon oedd yn nodedig o hardd. Ymlaen i Zion National Park oedd eto yn hardd, ac wedyn cyraedd y Grand Canyon ar fachlud haul, a'r oiygfa'n fythgofiadwy. Fore trannoeth hedfan mewn hofrennydd dros y Canyon ac yn teimlo arswyd wrth weld y lle. Roedd mawredd yr hollt yn annisgrifiadwy, ac afon Colorado fel llinyn arian ar waelod y dyffryn.



Fe godon ni am bump y bore i weld yr haul yn codi dros y Grand Canyon; golygfa na wna Anne a minnau byth ei anghofio, a'r lliwiau'n newid o wyrdd a glas i felyn ac oren.

Ar ôl gadael y Canyons, ar daith drwy'r anialwch i Las Vegas. Wel, dyma ddinas ddirgrynol sydd byth yn cysgu, a phawb yn chwarae'r peiriannau gamblo drwy'r dydd a'r nos. Cerdded i lawr y Strip a gweld Caesar's Palace, y Mirage a'r Dunes - gwestai mwyaf enwog Vegas.

Ymlaen ar ein taith i Los Angeles, a galw yn Calico Ghost Town ar ein ffordd. Roedd yn rhaid gweld Hollywood a Beverley Hills, a gweld sgrifen ac ôl dwylo a thraed y sêr seliwlod yn y palmant. Ar ôl hynny ymlaen i'r llong i gael ymlacio am rai diwrnodau gan alw i weld Ynysoedd y Catalina, ac ymlaen i Fescico i ddiweddu taith fythgofiadwy.

Daeth Beti George a'i chriw teledu gyda ni ar y daith, a bydd S4C yn dangos rhaglen o'r enw Calon Deg yn dilyn ein taith ar nos Lun 28 Rhagfyr eleni.

Calennig i'r Dinesydd TANYSGRIFIWCH £15 I DINESYDD 2000

**Dymunaf gyfrannu'r swm isod
yn flynyddol i Dinesydd 2000**

£15

swm arall (nodwch faint) £

Enw:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn:

Dymunaf dalu â siec trwy'r ymroddwr gael helpu'n ôl heb sicr...

archeb banc (llenwch isod)

Archeb Banc

I Fanc ccc

Cangen

Byddwchystal â thalu i Fanc y National Westminster, 10 Heol Hendre, Pen-coed, Parybont ar Dgw, Morgannwg Ganol CF35 5NW (Rhif cdd didol 60-16-48) i gredyd Dinesydd 2000 rhif 56401388, y swm o £ / / i dolechau ar / / ar wadyn bob blwyddyn / 6 mis (dilewch fel bo'r cangen) hyd nes y derbyniwch rybudd pellach gennyf / gennym, a debydu fy / ein cyfrif yn unol â hynny.

Cyfrif i'w ddebydu

Rhif y cyfrif

Llefnod (ion)

Dyddiad

**Llenwch y ffurflen, ei rhoi mewn amlen a'i dychwelyd at
Dinesydd 2000**

**4% Surrexit Cysylltiadau Torfol
Rhadbost - Freepost
Parc Afon, Bridge Road
Ystum Taf, Caerdydd CF4 1ZZ**

LYNN JONES



Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

30 Highfields, Llandaf
Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816

YN EISIAU ARFRYS

Person efo
cymwysterau a
phrofiad cyfaddas i
ddysgu Ffiseg ar
gyfer TGAU

Ffoniwch
0222 514732

DOES DIM TAW AR RADIO CYMRU!

Y NEWYDDION
MATERION CYFOES
CHWARAEON; DRAMÂU
GÊMAU PANEL; COMEDIAU
CREFYDD; CWISIAU
TRAFODAETH; SGYRSIAU

O'R FLWYDDYN
NEWYDD MAE
BBC RADIO CYMRU
YN DARLLEDU O
CHWECH Y BORE
TAN HANNER NOS

SUT FEDRWCH
CHI WRANDO
AR BOPETH?

BBC RADIO



O FORE GWYN
TAN NOS